Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymru’r Dyfodol

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040

### Casgliad o dystiolaeth Diweddaru – Medi 2020

# Beth yw'r ddogfen hon?

Pan gaiff ei gyhoeddi, enw ein fframwaith datblygu cenedlaethol fydd '**Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040**'. Paratowyd y ddogfen hon cyn iddo gael ei gyhoeddi ac mae'n defnyddio'r enw 'fframwaith datblygu cenedlaethol' ac 'FfDC' drwyddi draw. Er eglurdeb, ystyr y cyfeiriadau at y fframwaith datblygu cenedlaethol yn y ddogfen hon yw **Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040.**

Cafodd y ddogfen hon ei pharatoi i gynorthwyo darllenwyr y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) i ddeall yr amrywiaeth o dystiolaeth sydd wedi llywio'r gwaith o baratoi'r FfDC.

Mae'r ddogfen hon yn dilyn strwythur yr FfDC a gellir ei darllen fel canllaw ategol. Cyfeirir at rywfaint o dystiolaeth mewn mwy nag un lle ac mae hyn yn adlewyrchu sut mae'r dystiolaeth honno wedi helpu i lywio gwahanol rannau penodol o'r FfDC. Er mwyn osgoi gormod o ddyblygu, nid yw'r ddogfen hon yn nodi tystiolaeth graidd dro ar ôl tro ym mhob achos. Er enghraifft, mae'r Rhaglen Lywodraethu ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol wedi dylanwadu'n fawr ar yr FfDC, ond nid ydynt wedi'u nodi ym mhob achos.

Nid yw'r ddogfen hon yn esbonio sut y caiff polisïau eu datblygu, nac ychwaith y broses asesu. Gellir cael manylion am y rhain mewn mannau eraill. Dylai'r rhai sy'n dymuno cael esboniad manylach fynd i dudalennau gwe'r FfDC llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol a bwrw golwg dros yr wybodaeth sydd wedi ategu'r ymgyngoriadau ar draws y broses FfDC hyd yn hyn llyw.cymru/ymgyngoriadau?keywords=fframwaith%20datblygu%20cenedlaethol&field_consultation_status=All&%20Pob%20pwnc%20=All&%20Pob%20pwnc%20=All&published_after=&published_before=

Hefyd, mae'r ddogfen hon yn cysylltu Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 10) (PCC) â pholisïau'r FfDC. Mae'r FfDC a PCC yn chwaer-ddogfennau. Mae PCC yn pennu nodau ac amcanion polisi cyffredinol y system gynllunio. Mae'n sefydlu egwyddorion allweddol, a chafodd ei lywio gan amcanion llesiant a ffyrdd o weithio. Mynegiant gofodol o bolisi cynllunio cenedlaethol yw'r FfDC. Nid yw'r FfDC yn ailadrodd cynnwys PCC a dylid darllen y ddwy ddogfen gyda'i gilydd. Nid yw'r FfDC yn cynnwys materion na pholisïau yr ymdrinnir â nhw yn PCC. Mae adrannau 4 a 5 y ddogfen hon yn nodi'r berthynas rhwng polisïau unigol y FfDC drafft a PCC.



OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40263 ISBN digidol 978-1-80082-270-2

# Adran 1 – Cyflwyniad

Mae Adran 1 yn cyflwyno'r FfDC gan esbonio beth ydyw, sut mae wedi'i drefnu, sut mae wedi'i asesu a sut mae'n ategu polisïau ehangach Llywodraeth Cymru.

Y ddeddfwriaeth, y strategaethau a'r cynlluniau a'r dogfennau eraill y cyfeirir atynt yn Adran 1 sydd wedi llywio'r FfDC a'r hyn a wna. Er mwyn deall yr FfDC, rhaid cofio nad yw'n bodoli ar ei ben ei hun ac nad yw'n datblygu polisïau na strategaethau sy'n cael eu paratoi rywle arall. Mae deall y berthynas â strategaethau, meysydd polisi llywodraeth a chynlluniau datblygu eraill yn hanfodol er mwyn deall yr hyn y mae'r FfDC wedi'i baratoi i'w wneud.

Er enghraifft, nid yr FfDC yw'r fframwaith a sefydlodd cynllun ar gyfer yr amgylchedd morol. Rôl Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw honno. Nid yr FfDC yw Cynllun Trafnidiaeth Cymru. Nid yw'n asesiad o'r seilwaith cenedlaethol sydd ei angen nac yn gynllun datblygu i gymryd lle cynlluniau datblygu rhanbarthol neu leol. Mae'r berthynas rhwng yr FfDC a'r meysydd gwaith eraill hyn yn hanfodol bwysig. Bydd yr FfDC yn dylanwadu ar bolisïau, strategaethau a chynlluniau eraill (a byddant hwythau, ymhen amser, yn dylanwadu arno yntau) a bydd yn gweithio gyda nhw i gyflawni nodau a rennir.

Mae'n anorfod y bydd amserlenni paratoi yn amrywio a bydd yr FfDC yn cael ei baratoi'n gynharach na rhai strategaethau ac yn hwyrach na rhai eraill. Nid yw hyn ynddo'i hun yn broblem cyn belled â'i fod yn cael ei gydnabod a bod yr holl gynlluniau a strategaethau'n cydweithio i ddeall sut mae modd eu cysoni a sut mae cynnal ffocws ar y nodau cyffredin.

## Rhaglenni, Tystiolaeth a Materion Trosfwaol Allweddol

Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)
Rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth hon yn nodi ymrwymiadau allweddol, yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor ac yn dangos sut maent yn ategu gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru (2018)
Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf



Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017)
Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, a'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny.

llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017

Papur Materion yr FfDC
Crynodeb o 11 o faterion allweddol yr FfDC, sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid drwy ymarferion ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol a gynhaliwyd yn ystod 2016/17.

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-atodiad-a-materion.pdf

Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd (Ebrill 2019)
llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd

## Model o Ddylanwad yr FfDC

### Deddfwriaeth

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru drwy roi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i feddwl mewn ffordd fwy cynaliadwy a hirdymor. Mae'n pennu nodau llesiant a ffyrdd o weithio.

www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
Nod y Ddeddf yw cryfhau'r dull cynllunio a arweinir gan gynllun ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cynllun cenedlaethol ar gyfer defnydd tir, a elwir yn Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru. Bydd y fframwaith yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol o ran defnydd tir, ynghyd â gofynion Cymru o ran seilwaith.

www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/4/enacted/welsh

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Nod y Ddeddf yw ei gwneud yn bosibl rheoli adnoddau Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig a phennu'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted/welsh

Deddf Llywodraeth Cymru 2006
Deddf gan Senedd y Deyrnas Unedig yw hon sy'n diwygio Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yn hwyluso'r broses o roi mwy o bwerau iddo.

www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/contents

**Rhaglen Lywodraethu**

Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Rhagfyr 2017)
Mae'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tyfu'r economi.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (Mehefin 2019)
Casgliad o 100 o bolisïau a chynigion a fydd yn ein helpu i fodloni ein cyllideb garbon ar gyfer 2016-2020 a chyrraedd ein targedau lleihau allyriadau ar gyfer 2020.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-carbon-isel-cymru

**Polisïau a Strategaethau'r Llywodraeth**

Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ar gyfer twf a swyddi 2012 (Mai 2012)
Ymagwedd strategol Llywodraeth Cymru at fuddsoddi mewn seilwaith.

llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-yn-seilwaith-cymru-ar-gyfer-twf-swyddi-2012

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)
Mae'n amlinellu polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'n moroedd mewn ffordd gynaliadwy dros yr 20 mlynedd nesaf.

llyw.cymru/cynllunio-morol

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (Ebrill 2008)
Mae'n amlinellu prif nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella trafnidiaeth a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

llyw.cymru/strategaeth-drafnidiaeth

Y polisi adnoddau naturiol (Awst 2017)
Mae'n nodi blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau naturiol, sut y byddwn yn eu rhoi ar waith ac yn cadw golwg ar gynnydd.

llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol

Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol (Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Rhagfyr 2017))
Mae'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tyfu'r economi a sut y bydd yn datblygu'r rhanbarthau.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi

Pobl, llefydd, dyfodol: diweddariad cynllun gofodol Cymru 2008
Cynllun gofodol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol.

llyw.cymru/pobl-llefydd-dyfodol-diweddariad-cynllun-gofodol-cymru-2008?_ga=2.3351545.816712157.1600682833-1982390411.1589802180

Cymraeg 2050
Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer tyfu'r Gymraeg a'r defnydd ohoni.

llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg

Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru: Casgliadau sy'n Dod i'r Amlwg (Gorffennaf 2020)
Rôl Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru yw ymchwilio i fesurau cynaliadwy ar gyfer mynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4 yn y de-ddwyrain. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau allweddol a'r casgliadau sy'n dod i'r amlwg ar natur argymhellion ar gyfer y dyfodol

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-07/casgliadau-syn-dod-ir-amlwg.pdf

**Datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y Dyfodol**
Datblygiad y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn y dyfodol
Mae'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ddatblygu yn y dyfodol. .

llyw.cymru/datblygiad-y-fframwaith-datblygu-cenedlaethol-yn-y-dyfodol-papur-esboniadol



**Cyngor Annibynnol**
Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru
Mae Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru yn rhoi cyngor ar y seilwaith sydd ei angen ar Gymru.

llyw.cymru/comisiwn-seilwaith-cenedlaethol-cymru

**Cynllunio Rhanbarthol a Lleol**
Cynlluniau Datblygu Strategol
Canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn helpu paneli cynllunio strategol i baratoi cynllun datblygu strategol.

llyw.cymru/cynlluniau-datblygu-strategol-canllaw-ar-gyfer-awdurdodau-cynllunio-lleol

Cynlluniau Datblygu Lleol
Canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn helpu awdurdodau cynllunio lleol i baratoi neu ddiwygio cynlluniau datblygu lleol.

llyw.cymru/llawlyfr-cynlluniau-datblygu-argraffiad-3-mawrth-2020

Statws Cynlluniau Datblygu Lleol
Statws mabwysiadu cynlluniau datblygu lleol: Ebrill 2019

llyw.cymru/statws-mabwysiadu-cynlluniau-datblygu-ebrill-2019

Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol
Canllawiau newydd ar baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol

llyw.cymru/y-llawlyfr-ar-gynlluniau-datblygu-drafft-argraffiad-3

**Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau**
Gwnaed cais am dystiolaeth a phrosiectau posibl rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mawrth 2017. Gwahoddwyd pobl i gyflwyno tystiolaeth roeddent am i Lywodraeth Cymru ei hystyried wrth ddatblygu'r FfDC a phrosiectau posibl y gellid eu cynnwys yn y cynllun cenedlaethol. Roedd hwn yn gam pwysig yn natblygiad cynnar yr FfDC. Edrychwyd dros yr holl dystiolaeth a phrosiectau a ddaeth i law, a chawsant eu bwydo i mewn i'r gwaith cychwynnol o ddatblygu'r FfDC.

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-cymru?_ga=2.209791121.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Asesiadau**
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn asesu effeithiau'r FfDC ar safleoedd Natura 2000, sy'n cael eu diogelu drwy gyfraith yr UE neu eu trin fel y cyfryw drwy bolisi'r llywodraeth. Maent yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau), yn ogystal ag ACAau ac AGAau ymgeisiol a phosibl, a safleoedd Ramsar. Mae'r HRA yn ceisio sicrhau na fydd yr FfDC yn arwain at effaith sylweddol debygol ar unrhyw safle Natura 2000.

Y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir – Adroddiad sgrinio HRA rhagarweiniol:

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-sgrinio-hra-rhagarweiniol.pdf

HRA yr FfDC drafft:

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd.pdf

Atodiad A – Synnwyr y Fawd:

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/atodiad-a-adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd.pdf

Atodiad B – Goblygiadau rhwydwaith Meysydd Blaenoriaeth Natura 2000 ar  gyfer datblygu Ynni Solar a Gwynt Iedled Cymru – Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/atodiad-b-adroddiad-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd.pdf

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig

Proses yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) sy'n arfarnu'r FfDC wrth iddo gael ei ddatblygu i wneud yn siŵr ei fod mor gynaliadwy â phosibl. Mae'n broses iterus ac fe'i cynhaliwyd ar bob cam drwy gydol y broses o baratoi'r FfDC.  Mae'r ACI yn cynnwys Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad Strategol o'r Amgylchedd ac asesiadau statudol eraill ac asesiadau Llywodraeth Cymru.

Adroddiad Cwmpasu ACI:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-adroddiad-gwerthuso-cynaliadwyedd-integredig

Y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir – ACI interim:

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-adroddiad-interim-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig.pdf

Drafft yr FfDC:

Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) –

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/adroddiad-ar-yr-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig_0.pdf

Crynodeb Annhechnegol – Adroddiad ACI (yn cynnwys Adroddiad Amgylcheddol) –

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-08/Adroddiad%20ar%20yr%20Arfarniad%20Cynaliadwyedd%20Integredig%20-%20crynodeb%20annhechnegol.pdf

Papur Esboniadol – Asesu'r FfDC

Cafodd y papur esboniadol ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr FfDC drafft i ddeall y dull a roddwyd ar waith i asesu'r FfDC Drafft, a thynnir sylw at ba effeithiau sydd wedi'u hasesu a sut maent wedi llywio'r cynllun.

llyw.cymru/asesiadau-papur-esboniadol

# Adran 2 – Cymru: Trosolwg – Heriau a Chyfleoedd ac Adran 3 yr FfDC – Canlyniadau'r FfDC

Mae Adran 2 yn rhoi darlun inni o Gymru heddiw a'r heriau a'r cyfleoedd fydd yn ein hwynebu dros oes yr FfDC. Mae'r adran hon yn rhoi cyd-destun i'r materion hynny, yn enwedig y rhai gofodol y mae'r FfDC yn fframwaith ar eu cyfer.

Rydym wedi rhestru'r dystiolaeth isod y seiliwyd yr adran hon arni. Ategir hyn gan fapiau a graffeg ym Mhennod 2 o'r FfDC. Mae'r digwyddiadau ymgysylltu a'r ymgyngoriadau a gynhaliwyd yn ystod y broses wedi bod yn allweddol i allu clustnodi'r materion dan sylw a rôl yr FfDC o ran mynd i'r afael â nhw.

Mae Canlyniadau'r FfDC yn Adran 3 yn ymateb i'r materion, y cyfleoedd a'r heriau a ddisgrifir yn Adran 2 a'r sail dystiolaeth ehangach. Un dylanwad mawr ar y gwaith o ddatblygu Canlyniadau'r FfDC oedd yr ymgynghoriad ar y Prif Faterion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer yr FfDC yn 2018, a chafodd y gwaith hwnnw ei fireinio drwy'r ymgynghoriad ar yr FfDC drafft yn 2019.

### Ymgysylltu ac Ymgynghori ar yr FfDC

Digwyddiadau ymgysylltu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – gaeaf 2017
Adroddiad ar y materion a godwyd a'r syniadau a gynigiwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ym misoedd Ionawr a Chwefror 2017.

llyw.cymru/digwyddiadau-ymgysylltur-fframwaith-datblygu-cenedlaethol-gaeaf-2017-adroddiad

Digwyddiadau ymgysylltu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – hydref 2017
Adroddiad ar y materion a godwyd a'r syniadau a gynigiwyd mewn digwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2017.

llyw.cymru/digwyddiadau-ymgysylltur-fframwaith-datblygu-cenedlaethol-hydref-2017-adroddiad

Cynllun Ymgysylltu'r FfDC
Calendr o gyfarfodydd, gweithdai a digwyddiadau sydd wedi'u cynnal i drafod y fframwaith datblygu cenedlaethol.

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-cynllun-ymgysylltu

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol: Y prif faterion, opsiynau a'r opsiwn a ffefrir: Adroddiad Ymgynghori
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-05/180430-dogfen-ymgynghori-materion-opsiynau-ar-opsiwn-a-ffefrir.pdf

Papur Materion yr FfDC
Crynodeb o 11 o faterion allweddol yr FfDC, sydd wedi'u nodi gan randdeiliaid drwy ymarferion ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol a gynhaliwyd yn ystod 2016/17.

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-04/180430-atodiad-a-materion.pdf

Cais am dystiolaeth a phrosiectau ar gyfer yr FfDC
Gwnaed cais am dystiolaeth a phrosiectau posibl i'w cynnwys yn yr FfDC rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Mawrth 2017.

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-cymru

### Ein Poblogaeth

Amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol
Mae'r rhagolygon yn darparu ystadegau ar faint a strwythur oed posibl poblogaeth y DU a'i gwledydd.

llyw.cymru/amcanestyniadau-poblogaeth-cenedlaethol

Ystadegau Cryno ar gyfer Rhanbarthau Cymru (2020)
Mae'r adroddiadau'n darparu ystadegau cryno ar bynciau allweddol i Gymru a phob un o bedwar rhanbarth yr FfDC.

llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020?_ga=2.196683816.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Poblogaeth ac Ymfudo
Ystadegau ar faint, oed, rhyw a gwasgariad daearyddol poblogaeth y DU, a newidiadau ym mhoblogaeth y DU a'r ffactorau sy'n achosi'r newidiadau hyn.

cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration

Ystadegau ac Ymchwil i Lesiant yng Nghymru
Y diweddaraf am hynt y gwaith yng Nghymru i gyflawni'r 7 nod llesiant.

llyw.cymru/llesiant-cymru

### Ein Hiaith

Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (Gorffennaf 2017)
Dull hirdymor Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg

Strategaeth y Gymraeg: adroddiad blynyddol 2017 i 2018 (Mawrth 2019)
Adroddiad ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar strategaeth 'Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr' ym mlwyddyn ariannol 2017-18.

llyw.cymru/strategaeth-y-gymraeg-adroddiad-blynyddol-2017-i-2018

### Ein Hadnoddau Naturiol

SoNaRR: Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2016)
Mae'r adroddiad yn disgrifio cyflwr adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau y mae adnoddau naturiol yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac mae'n argymell mynd ati'n rhagweithiol i feithrin cydnerthedd. Mae'n cysylltu cydnerthedd adnoddau naturiol Cymru â llesiant pobl Cymru.

naturalresources.wales/sonarr?lang=cy

Y polisi adnoddau naturiol (Awst 2017)
Mae'n nodi blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer adnoddau naturiol, sut y byddwn yn eu rhoi ar waith ac yn cadw golwg ar gynnydd.

llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol

Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017)
Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, a'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny.

llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017



### Ein Turlun a'n Hecoleg

LANDMAP
Adnodd ar gyfer cofnodi tirwedd Cymru gyfan yw LANDMAP sy'n cofnodi ac yn gwerthuso nodweddion a rhinweddau'r dirwedd a'r dylanwadau arnynt.

naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/evidence-to-inform-development-planning/landmap-the-welsh-landscape-baseline/?lang=cy

Lle: Porth–Daear i Gymru
Cafodd Lle ei ddatblygu fel partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Canolbwynt data a gwybodaeth yw Lle sy'n trafod ystod eang o bynciau, gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr amgylchedd.

lle.gov.wales/home?lang=cy

### Ein Heconomi

Proffiliau rhanbarthol y farchnad lafur a'r economi
Data am bynciau amrywiol fel cyflogaeth, anweithgarwch economaidd, hawlwyr budd-daliadau ac enillion.

llyw.cymru/proffil-rhanbarthol-marchnad-lafur-ac-economaidd

Ystadegau Cryno ar gyfer Rhanbarthau Cymru (2020)
Mae'r adroddiadau'n darparu ystadegau cryno ar bynciau allweddol i Gymru a phob un o bedwar rhanbarth yr FfDC.

llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020?_ga=2.45411309.816712157.1600682833-1982390411.1589802180

Cronfeydd Ewropeaidd Cymru: Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd
Canllaw sy'n rhoi cyd-destun buddsoddi ar gyfer rhoi rhaglenni'r UE ar waith yng Nghymru.

llyw.cymru/cronfeydd-ewropeaidd-cymru-fframwaith-blaenoriaethau-economaidd

Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Rhagfyr 2017)
Mae'n nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tyfu'r economi.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi

Economi Cymru mewn rhifau: dangosfwrdd
Dangosfwrdd o 8 dynodydd sy'n dangos sut mae economi Cymru'n cymharu â rhanbarthau Lloegr a gwledydd eraill y DU.

llyw.cymru/economi-cymru-mewn-rhifau-dangosfwrdd

Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru ar gyfer twf a swyddi 2012 (Mai 2012)
Dull strategol Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn seilwaith.

llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-yn-seilwaith-cymru-ar-gyfer-twf-swyddi-2012

Cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru: adolygiad canol cyfnod 2018 (Mai 2018)
Adolygiad o ddull strategol Llywodraeth Cymru o fuddsoddi mewn seilwaith.

llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-yn-seilwaith-cymru-adolygiad-canol-cyfnod-2018

Ardaloedd Menter
Trosolwg o ardaloedd menter Cymru.

businesswales.gov.wales/enterprisezones/cy

Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: cyflwyniad (Gorffennaf 2017)
Cynllun gweithredu lefel uchel Llywodraeth Cymru sy'n disgrifio amcanion Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.

llyw.cymru/ein-cymoedd-ein-dyfodol-cyflwyniad

Cymorth i wella canol trefi (yn cynnwys rhaglen targedu buddsoddiad mewn adfywio)
Rhaglen gymorth Llywodraeth Cymru i helpu i wella canol trefi

llyw.cymru/cymorth-i-wella-canol-trefi

Lleoedd llewyrchus llawn addewid: fframwaith (Mawrth 2013)
Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer adfywio cymunedau yng Nghymru.

llyw.cymru/lleoedd-llewyrchus-llawn-addewid-fframwaith

Strategaeth dwristiaeth (Partneriaeth ar gyfer twf) (Mehefin 2013)
Strategaeth Llywodraeth Cymru i wella ein sector twristiaeth.

llyw.cymru/strategaeth-dwristiaeth-partneriaeth-ar-gyfer-twf

Baromedr Twristiaeth
'Cipolwg' ar berfformiad y diwydiant ar ôl adegau pwysig yn y calendr twristiaeth.

llyw.cymru/baromedr-twristiaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru: Ystadegau ac Ymchwil
Datganiadau ystadegau swyddogol ac ymchwil am Gymru.

llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

### Ein Seilwaith Digidol

Fframwaith cynhwysiant digidol (Mawrth 2016)
Cynllun Llywodraeth Cymru i wneud yn siŵr bod pawb sydd am fynd ar-lein yn gallu gwneud hynny.

llyw.cymru/fframwaith-cynhwysiant-digidol

Cymru Ddigidol: cynllun cyflawni (Mawrth 2011)
Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r nod o wneud Cymru'n wlad ddigidol.

llyw.cymru/cymru-ddigidol-cynllun

Cynllun gweithredu ffonau symudol (Hydref 2017)
Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwella cysylltedd symudol.

llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ffonau-symudol

### Ein Cysylltiadau

Y Ddaear
earth.google.com/web/@52.2461433,-3.63246423,416.65369175a,1142468.16872925d,35y,14.93741184h,0t,0rr

### Ein pedwar rhanbarth

Ystadegau Cryno ar gyfer Rhanbarthau Cymru (2020)
Mae'r adroddiadau'n darparu ystadegau cryno ar bynciau allweddol i Gymru a phob un o bedwar rhanbarth yr FfDC.

llyw.cymru/ystadegau-cryno-fesul-rhanbarth-cymru-2020?_ga=2.45411309.816712157.1600682833-1982390411.1589802180

Cronfeydd Ewropeaidd Cymru: Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd
Canllaw sy'n rhoi cyd-destun buddsoddi ar gyfer rhoi rhaglenni'r UE ar waith yng Nghymru.

llyw.cymru/cronfeydd-ewropeaidd-cymru-fframwaith-blaenoriaethau-economaidd

Pobl, llefydd, dyfodol: diweddariad cynllun gofodol Cymru 2008
Cynllun 20 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol.

llyw.cymru/pobl-llefydd-dyfodol-diweddariad-cynllun-gofodol-cymru-2008

Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau – Bargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru (2017)
Adroddiad gan Bwyllgor ESS ar gynigion rhanbarthol a bargeinion dinesig a sut maen nhw'n ategu strategaethau economaidd Cymru a'r DU.

www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s68161/Adroddiad.pdf

### Newid yn yr Hinsawdd

Llywodraeth Cymru'n datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd (Ebrill 2019).

llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd

Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017)
Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn nodi'r tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol a allai effeithio ar Gymru yn y dyfodol, a'r ffactorau a allai ddylanwadu ar gyfeiriad y tueddiadau hynny.

llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017

Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel (2019)
Casgliad o 100 o bolisïau a chynigion a fydd yn ein helpu i fodloni ein cyllideb garbon ar gyfer 2016-2020 a chyrraedd ein targedau lleihau allyriadau ar gyfer 2020.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-carbon-isel-cymru

### Adnoddau Dŵr

Strategaeth Ddŵr (Mai 2015)
Polisi Llywodraeth Cymru ar reoli, diogelu a gwella ansawdd ein dŵr a'n gwasanaethau dŵr.

llyw.cymru/strategaeth-ddwr

### Ynni Adnewyddadwy/Economi Carbon Isel

Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2018 (Rhagfyr 2017)
Adroddiad sy'n nodi capasiti cynhyrchu ynni presennol Cymru a dadansoddiad o'r ffordd y mae wedi newid dros amser.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/cynhyrchu-ynni-chymru-2018.pdf

Targedau ynni adnewyddadwy: tystiolaeth (Gorffennaf 2019)
Data a dadansoddiad i gefnogi'r targedau a gynigir ar gyfer ynni adnewyddadwy.

llyw.cymru/targedau-ynni-adnewyddadwy-tystiolaeth

Twf Gwyrdd: ynni lleol (Gorffennaf 2015)
Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ynni lleol yng Nghymru, gan esbonio sut y gall cymunedau a busnesau ddefnyddio ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol.

llyw.cymru/ynni-lleol-twf-gwyrdd-cymru

### Dŵr & Arfordiroedd

Strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (Tach 2011)
Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau perygl llifogydd ac erydu arfordirol i gartrefi a busnesau.

llyw.cymru/strategaeth-rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol

Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol: addasu i'r newid yn yr hinsawdd (Rhagfyr 2017)
Cyngor Llywodraeth Cymru ar sut i ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd wrth baratoi prosiectau a strategaethau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

llyw.cymru/rheoli-perygl-llifogydd-ac-erydu-arfordirol-addasu-i-newid-yn-yr-hinsawdd

### Teithio

Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (Ebrill 2008)
Mae'n amlinellu prif nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella trafnidiaeth a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

llyw.cymru/strategaeth-drafnidiaeth

Cynllun cyllid trafnidiaeth cenedlaethol: diweddariad 2018
Y gwelliannau i drafnidiaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud ers 2017 ac yn bwriadu eu gwneud yn y 2 flynedd nesaf.

llyw.cymru/cynllun-cyllid-trafnidiaeth-cenedlaethol-diweddariad-2018

Cynllun Busnes Trafnidiaeth Cymru 2018/19
Mae'r cynllun busnes hwn yn esbonio sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu yng nghyfnod llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru, o 1 Hydref 2018 i 31 Mawrth 2019.

tfw.wales/cy/thryloyw/publications

### Agregau

Polisi Cynllunio Cymru (2018)
Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi polisïau Llywodraeth Cymru ar gynllunio defnydd tir.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf

Nodyn cyngor technegol mwynau (MTAN) Cymru 1: agregau (Mawrth 2004)
Canllaw Llywodraeth Cymru ar godi agregau.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-mwynau-mtan-1-agregau

### Brexit

Paratoi Cymru i ymadael â'r UE
Cyngor i ddinasyddion, sefydliadau a sectorau ledled Cymru ar y camau y mae angen eu cymryd i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE. Bydd yn cael ei ddiweddaru'n gyson.

llyw.cymru/paratoi-cymru

### Tai

Darparu mwy o gartrefi yng Nghymru: argymhellion (Ionawr 2014)
Adroddiad gan y Tasglu Cyflenwad Tai ar ffyrdd o gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy.

llyw.cymru/darparu-mwy-o-gartrefi-yng-nghymru-argymhellion

Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy: adroddiad (Mai 2019)
Adroddiad annibynnol yn argymell sut i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwella'u hansawdd.

llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad

Amcengyfrifon o'r angen am dai additional fesul deiliadaeth: ar sail 2019 (Awst 2020)
Erthygl Ystadegol gan Lywodraeth Cymru sy'n nodi amcangyfrifon 2019 o'r angen am dai ychwanegol yng Nghymru o 2019-20 i 2038-39 fesul deiliadaeth.

llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019?_ga=2.215349265.769615705.1600276584-620607912.1597653541

# Adran 4 – Dewisiadau Strategol a Gofodol: Strategaeth Ofodol y FfDC

Mae Adran 4 yn disgrifio strategaeth ofodol yr FfDC a'r 15 o bolisïau strategol fydd yn cael eu cymhwyso ar lefel Cymru gyfan. Mae Adran 4 wedi'i rhannu'n dair rhan – mae'n nodi ble yng Nghymru y dylai twf ddigwydd; sut y dylid cynllunio a rheoli twf; a sut y dylem ddarparu pŵer a gwres i leoedd gan ddefnyddio ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau gwresogi ardal.

Rydym yn nodi isod y dystiolaeth y seiliwyd yr adran hon arni.

Fel yr esboniwyd ar ddechrau'r ddogfen hon, rydym wedi nodi hefyd y cysylltiadau rhwng polisïau'r FfDC a Pholisi Cynllunio Cymru. Nid yw'r FfDC yn ailadrodd PCC ac nid yw'n diffinio egwyddorion allweddol nac yn gwneud datganiadau polisi sydd eisoes wedi'u nodi yn PCC. Mae'n bwysig cofio hynny wrth ddarllen yr FfDC. Os nad yw'r FfDC yn cyfeirio at bwnc, nid yw hynny'n golygu nad yw'r pwnc hwnnw'n un pwysig nac nad yw'n destun polisi cynllunio. Gall olygu bod PCC eisoes yn trafod y mater yn y lle cyntaf ac nad oes agwedd ofodol benodol iddo y mae angen i'r FfDC ymdrin â hi.

**Papur Esboniadol - Y Strategaeth Ofodol**

Mae'r papur esboniadol yn esbonio sut y cafodd strategaeth ofodol yr FfDC Drafft ei datblygu, a thynnir sylw at y modd mae'r polisïau'n ategu'r strategaeth.

Amcan y strategaeth ofodol yw cefnogi'r lleoedd sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a chreu'r amodau iddynt allu tyfu, datblygu a gwella. Cafodd y strategaeth ei llywio gan y gwaith ymgysylltu a wnaed wrth ddechrau paratoi'r FfDC a'r ymgynghori ar yr Opsiwn a Ffefrir.  Mae'r papur esboniadol hwn yn nodi'r amrywiol ffynonellau gwybodaeth a data a'n helpodd i bennu manylion y strategaeth ofodol.

llyw.cymru/y-strategaeth-ofodol-papur-esboniadol?_ga=2.167832613.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 1 – Ble y bydd Cymru'n tyfu**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Mae'r disgwyliad i gynlluniau datblygu bennu strategaeth ofodol a dangos ble y caiff datblygiadau eu blaenoriaethu a'u lleoli wedi'i nodi ym mharagraffau 3.37 – 3.44 *Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn Chwilio am Safleoedd.* Ceir datganiad manwl ar rôl yr FfDC ym mharagraffau 1.22 – 1.23 *Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.*

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.209256598.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Tystiolaeth Allweddol

Papur Esboniadol yr FfDC: Y Strategaeth Ofodol

Mae'r papur esboniadol yn tynnu sylw at y dystiolaeth allweddol a lywiodd y strategaeth ofodol.

llyw.cymru/y-strategaeth-ofodol-papur-esboniadol?_ga=2.209256598.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)

Mae strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru yn amlinellu blaenoriaethau allweddol a phrosiectau y mae'n eu cefnogi. Mae strategaeth ofodol yr FfDC yn ymateb i'r rhain, drwy ddatblygu strategaeth ofodol a all gefnogi nodau ehangaf y llywodraeth.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisi hwn yng Ngrŵp Polisi 1.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol**

**Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus;**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC
Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)
Mae PCC yn sicrhau bod creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio, gyda'r amcan o greu lleoedd cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant pobl (Pennod 2). Mae paragraffau 3.37-3.44, sy'n trafod creu lleoedd strategol a strategaeth ofodol, hefyd yn berthnasol. Mae'r FfDC yn adeiladu ar hyn ac yn nodi nifer o egwyddorion creu lleoedd strategol er mwyn llywio twf ac adfywio. Y nod yw darparu fframwaith i drefi a dinasoedd gefnogi bywydau egnïol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd.

Mae'r FfDC hefyd yn hyrwyddo rôl fwy gweithredol i'r sector cyhoeddus, gan gynnwys cydgasglu tir, buddsoddi mewn seilwaith a pharatoi safleoedd ar gyfer datblygu. Y nod yw i'r sector cyhoeddus gefnogi'r gwaith o gyflawni twf trefol ac adfywio, yn ogystal â dangos arweinyddiaeth wrth greu lleoedd.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)
Mae TAN 12: Dylunio (2016) yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni gwaith dylunio da yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol ac mae'n cynnwys canllawiau er mwyn helpu pawb sy'n gwneud penderfyniadau ledled Cymru i ddeall pwysigrwydd dylunio da a'r ffyrdd y gellir ei gyflawni.

TAN 18: Trafnidiaeth (2007) o blaid integreiddio gwaith cynllunio defnydd tir a datblygu seilwaith trafnidiaeth. Mae o blaid lleihau'r angen i deithio a rhoi mwy o ddewis o ddulliau teithio, heblaw car preifat. Mae hefyd o blaid sicrhau cymaint o hygyrchedd cymharol â phosibl, yn hytrach na sicrhau y gall pawb deithio i bobman.

Mae'r FfDC yn integreiddio'r polisïau hyn sy'n seiliedig ar byncιau er mwyn cynnig fframwaith i'r system gynllunio helpu trefi a dinasoedd i fod yn gymdogaethau cywasgedig a cherddedadwy sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth?_ga=2.142003638.580004829.1600676113-620607912.1597653541

### Tystiolaeth Allweddol

#### Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)

Strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru sy'n cymryd yr ymrwymiadau allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, ac yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor ac yn dangos sut maent yn ategu gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

Amcanion Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb yw lleihau ein hallyriadau carbon, hyrwyddo teithio llesol, annog ffyrdd o fyw mwy egnïol, cynnal cyfleusterau lleol a chael y gwerth gorau o'n gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r FfDC yn darparu fframwaith i'r system gynllunio lunio lleoedd a thwf trefol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol?_ga=2.201843861.580004829.1600676113-620607912.1597653541

#### Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisïau hyn yng Ngrwpiau Polisi 1 a 2.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig;**

**Polisi 5 – Cefnogi'r Economi Wledig**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Mae'n rhoi canllawiau polisi cynllunio ar bob math o ddatblygiad gwledig ac yn cefnogi cydnerthedd a'r gallu i addasu i newid cymdeithasol ac economaidd.

Mae'n cefnogi datblygiadau newydd mewn aneddiadau â hygyrchedd da drwy deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus, ac yn croesawu egwyddorion cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy.

Mae'n cefnogi datblygiad amaethyddol ac arallgyfeirio.

Yn benodol paragraffau 3.34 – 3.36 (Creu lleoedd mewn ardaloedd gwledig) a 5.6 (Yr economi wledig).

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.133751178.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

- Mae'n hyrwyddo economi wledig gref er mwyn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog.
- Mae'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i fabwysiadu dull cadarnhaol o ddatblygu mewn ardaloedd gwledig, ac yn cyflwyno polisi yn seiliedig ar safleoedd a meini prawf ar gyfer cyflogaeth a thai fforddiadwy yn eu cynlluniau datblygu.
- Mae'n cefnogi arallgyfeirio gwledig (gan gynnwys ar ffermydd) er mwyn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, cynyddu ffyniant a lleihau'r angen i deithio.
- Mae'n annog datblygiad hunangyflogaeth a microfusnesau, a seilwaith cyfathrebu newydd sy'n hanfodol i gefnogi twf economaidd, cymunedau a busnesau.
- Mae'n diffinio Anheddau Mentrau Gwledig sy'n galluogi gweithwyr mentrau gwledig (gan gynnwys newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant ffermio) i fyw yn eu gweithle neu'n agos ato.

- Mae'n annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i fabwysiadu dull cadarnhaol mewn perthynas â chynigion sy'n gwella hyfywedd, hygyrchedd neu werth cymunedol gwasanaethau a chyfleusterau sydd eisoes yn bodoli, fel siopau, swyddfeydd post a thafarndai gwledig.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy

Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) eraill
TAN 23 Datblygu Economaidd (2014)

TAN 13 Twristiaeth (1997)

TAN 16 Chwaraeon a Hamdden (2009)

TAN 20 Y Gymraeg (2017)

TAN 4 Canolfannau Manwerthu a Masnachol (2016)

TTAN 24: Yr amgylchedd hanesyddol (2017)

TAN 5: Cynllunio a chadwraeth natur (2009)

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-23-datblygu-economaidd?_ga=2.96405784.580004829.1600676113-620607912.1597653541

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-13-twristiaeth

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored.pdf

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan20-cymraeg.pdf

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan4-datblygiadau-manwerthru-masnachol.pdf

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-24-yr-amgylchedd-hanesyddol

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

Tystiolaeth Allweddol

Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Mawrth 2019)
Mae'n hyrwyddo twf economi gynhwysol, gan ledaenu cyfleoedd a llesiant, gan gyfrannu at gyflawni'r Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb.

- Mae'n cefnogi twf a datblygiad yr economi wledig.
- Mae'n cydnabod pwysigrwydd yr economi sylfaen mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig y diwydiannau bwyd a thwristiaeth, ac mae'n ymrwymedig i helpu arallgyfeirio gwledig a diwallu anghenion busnes.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf

Astudiaeth o Ranbarthau ac Ardaloedd Gwledig yr FfDC (13 Mawrth 2019)
Mae'n archwilio ardaloedd gwledig ac yn datblygu sylfaen dystiolaeth i lywio polisïau'r FfDC, ac mae'n nodi materion ac ardaloedd gofodol y dylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt.

Casgliadau'r astudiaeth

- Nid oes llawer o angen am fwy o bolisïau cynllunio gwledig penodol y tu hwnt i'r hyn y mae'r system gynllunio eisoes yn ei gynnig.
- Gall yr FfDC helpu'r system gynllunio i gefnogi datblygiad a chanlyniadau cadarnhaol mewn ardaloedd gwledig.
- Dylai tai gwledig ac aneddiadau newydd fod wedi'u cysylltu â chyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyflogaeth drwy drafnidiaeth gynaliadwy.
- Dylid diffinio ardaloedd twf ac ystyried darparu seilwaith ar lefel genedlaethol a rhanbarthol er mwyn cefnogi datblygu cynaliadwy.
- Dylai asedau twristiaeth, yr amgylchedd naturiol a chyrchfannau ymwelwyr fod wedi'u cysylltu â mathau cynaliadwy o drafnidiaeth.

- Dylid hybu a diogelu'r Gymraeg a nodi meysydd a pholisïau â blaenoriaeth i gefnogi'r nod hwn.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i seilwaith digidol mewn ardaloedd gwledig er mwyn hwyluso trefniadau gweithio gartref, cydlyniant cymunedol, addysg ar-lein a lleihau'r angen i deithio.
- Dylai cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd gwledig fod wedi'u cysylltu â seilwaith a chreu lleoedd, gan gysylltu cymunedau a chyfleusterau addysg ag ardaloedd gwaith.
- Dylai seilwaith trafnidiaeth gysylltu pobl â safleoedd a gwasanaethau allweddol a diogelu'r rhwydwaith at y dyfodol drwy ddarparu seilwaith cerbydau trydan.
- Dylid mabwysiadu dull integredig o ddatblygu ynni, gan ystyried anghenion y gymuned leol, capasiti'r grid, hygyrchedd ac ystyriaethau rheoli tir.
- Dylai'r system gynllunio gefnogi dull gweithredu hygyrch mewn perthynas â'r diwydiant amaethyddol a datblygu a galluogi mathau priodol o arallgyfeirio gwledig.

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-astudiaeth-o-ranbarthau-ac-ardaloedd-gwledig

### Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol (2017)

Mae'n trafod tueddiadau'r presennol a'r dyfodol sy'n effeithio ar Gymru. Mae'n ymdrin â materion fel poblogaeth, yr economi, y newid yn yr hinsawdd, ynni, trafnidiaeth, tlodi, cyfathrebu a thechnoleg y dyfodol.

Pwyntiau allweddol

- Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru'n cynyddu 5% dros yr 20 mlynedd nesaf.
- Gwahaniaeth o 8 mlynedd mewn disgwyliad oes rhwng yr ardaloedd â'r mwyaf a'r lleiaf o amddifadedd, a gwahaniaeth o 18 mlynedd mewn bywyd iach.
- Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yng Nghymru'n tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth.
- Mae ffactorau demograffig a diffyg 'màs economaidd' yn effeithio ar werth ychwanegol gros Cymru.
- Mae gan Gymru botensial o ran twf sydd heb ei gyffwrdd eto ar gyfer creu ynni, gan gynnwys ynni o ffynonellau adnewyddadwy.
- Mae'r seilwaith band eang yn gwella ond ceir heriau daearyddol o hyd.
- Cerbydau preifat fydd y prif ddull o deithio o hyd yn y tymor byr a chanolig.
- Mae'r newid yn yr hinsawdd yn peri risg i seilwaith, a llifogydd yw'r risg hirdymor fwyaf.
- Mae bioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru dan bwysau cynyddol.
- Mae'r angen am dai yn cynyddu gan fod nifer yr aelwydydd yn cynyddu'n gyflymach na nifer y tai sydd ar gael.
- Mae lefelau tlodi fymryn yn uwch yng Nghymru na'r DU.
- Mae nifer y siaradwyr Cymraeg wedi lleihau ond mae mwy o bobl yn ei siarad yn llai rhugl.
- Gallai Brexit gael effaith sylweddol a phellgyrhaeddol ar Gymru.
- Gallai datblygiadau technolegol yn y dyfodol, fel deallusrwydd artiffisial a chynnydd mewn awtomeiddio, effeithio ar strwythur yr economi, gan beryglu swyddi a llesiant.
- Gallai datblygiadau mewn technolegau domestig, cludiant ac ynni weddnewid ymddygiad y boblogaeth.

llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/170505-future-trends-report-2017-cy.pdf

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Digwyddiadau Ymgysylltu – Ionawr / Chwefror 2017

Trefnwyd y digwyddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r FfDC, casglu safbwyntiau ar y materion dan sylw, tynnu sylw at y Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau, a rhoi cyfle i bobl ofyn cwestiynau.

Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar dwristiaeth fel cyfle economaidd allweddol i Gymru gyfan, rhaid i'r FfDC gynnig gweledigaeth a strategaeth ar gyfer yr economi wledig, gan gefnogi amaethyddiaeth a choedwigaeth. Dylai cydnerthedd gwledig fod yn thema allweddol. Dylai gydnabod y bydd angen atebion gwahanol i rai materion, dylai'r FfDC gefnogi twf sy'n creu gyrfaoedd ac nid dim ond swyddi, yn enwedig yng nghefn gwlad Cymru lle y bydd pobl ifanc yn aml yn gadael i symud ymlaen yn eu gyrfaoedd, dylai'r FfDC helpu i gyflawni amcanion y Gymraeg a chreu cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd Cymraeg. Pobl yn gadael i chwilio am waith yw un o'r problemau mwyaf sy'n effeithio ar yr iaith, dylai'r FfDC gefnogi'r sector amaethyddol ac ymateb i heriau Brexit. Bydd arallgyfeirio gwledig yn broblem fawr a rhaid paratoi ar ei chyfer, rhaid i'r FfDC helpu i greu sylfaen economaidd i'r Canolbarth.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-digwyddiadau-ymgysylltu-ionawr-chwefror-2017-cofnod-o-ddigwyddiadau.pdf

Prif Faterion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Crynodeb o'r Ymgynghoriad, Mehefin 2019

Cynhaliwyd ymgynghoriad 'Prif Faterion, Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir' y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru ac yn nodi'r camau nesaf.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

- Yr angen am feini prawf i bennu bod ardal yn un 'wledig'
- Codwyd pryderon ynghylch agweddau penodol ar yr Opsiwn a Ffefrir mewn perthynas â'r amcanion, gan gynnwys yr angen i gryfhau'r cyfeiriadau at gefn gwlad Cymru
- Pryderon ynghylch y ffordd y caiff ardaloedd gwledig eu trin o gymharu ag ardaloedd trefol, gan gyfeirio'n benodol at yr angen i sicrhau y caiff ardaloedd gwledig yr un cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd ag ardaloedd trefol.
- Mae angen agenda gynhwysfawr ar gefn gwlad Cymru i fynd i'r afael â goblygiadau Brexit a'r newid yn yr hinsawdd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- Er mwyn mynd i'r afael â dyfodol ardaloedd gwledig a rôl y system gynllunio, rhoddir ystyriaeth i'r gwahaniaethau rhwng y gwledig a'r trefol, gweithgarwch economaidd, mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, cysylltedd digidol, tai a swyddi.
- Cynigir y bydd y FfDC hefyd yn cael ei ategu gan sawl nodyn esboniadol er mwyn rhoi manylion cefndir am rywfaint o'r dystiolaeth a ddefnyddir er mwyn helpu i'w baratoi.

llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-crynodeb-o-ymatebion.pdf

**Papur Esboniadol**

Ardaloedd Gwledig

Cafodd y papur esboniadol ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr FfDC drafft i ddeall sut mae'n ceisio mynd i'r afael â materion gwledig ledled Cymru, gan dynnu sylw at y dystiolaeth allweddol sydd wedi llywio'r cynllun.

llyw.cymru/ardaloedd-gwledig-papur-esboniadol?_ga=2.104400004.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisïau hyn yng Ngrŵp Polisi 1.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 6 – Canol Trefi yn Gyntaf**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)
Mae'r FfDC yn adlewyrchu ein polisi 'canol trefi yn gyntaf' yn PCC (Adran 4.3) o leoli gweithgarwch yng nghanol ein trefi a'n dinasoedd yn bennaf, sef y lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.104400004.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)
TAN 4: Datblygiadau Manwerthu a Masnachol (2016) yn nodi amcanion Llywodraeth Cymru, sef:

- Hyrwyddo canolfannau manwerthu a masnachol trefol a gwledig fel y lleoliadau mwyaf cynaliadwy i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu a chynnal busnes.
- Cynnal a gwella bywiogrwydd, hyfywedd ac atyniad canolfannau manwerthu a masnachol.
- Gwella mynediad i, ac o fewn, canolfannau manwerthu a masnachol â phob dull o deithio, yn enwedig cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-4-datblygiad-manwerthol-masnachol

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-12-dylunio?_ga=2.96340376.580004829.1600676113-620607912.1597653541

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth?_ga=2.96340376.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Tystiolaeth Allweddol
Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)
Strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru sy'n cymryd yr ymrwymiadau allweddol yn ein Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, ac yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor ac yn dangos sut maent yn ategu gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

Amcanion Llywodraeth Cymru yn Ffyniant i Bawb yw lleihau ein hallyriadau carbon, hyrwyddo teithio llesol, annog ffyrdd o fyw mwy egnïol, cynnal cyfleusterau lleol a chael y gwerth gorau o'n gwariant ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r FfDC yn dweud y dylai cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd sylweddol gael eu lleoli yng nghanol trefi a dinasoedd er mwyn cyflawni'r amcanion hyn.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol?_ga=2.129549320.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisi hwn yng Ngrŵp Polisi 1.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Poliisi 7 – Delivering Affordable Homes**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC

Cymru lle mae pobl yn byw...

2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Mae thema Lleoedd Actif a Chymdeithasol PCC yn ymdrin â thai, gan gynnwys tai fforddiadwy, ac mae'n cydnabod bod cael cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yn sylfaen i fyw'n dda sy'n arwain at ystod eang o fanteision i iechyd, dysgu a ffyniant.

Mae PCC yn pennu fframwaith er mwyn helpu i gyflenwi tai. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio, drwy brosesau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a'r Cynllun Datblygu Strategol (CDS), gadarnhau faint o dai y bydd angen eu darparu dros gyfnodau'r cynlluniau, gan gynnwys tai fforddiadwy, a monitro hynny.

Mae Adran 4.2.25 o PCC yn nodi bod angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y mae'n rhaid ei hystyried wrth ffurfio polisïau cynlluniau datblygu ac mae hefyd yn rhoi diffiniad clir o dai fforddiadwy at ddibenion y system gynllunio.

Paragraffau 4.2, 4.2.25–4.2.34 – Byw mewn Lle, Tai

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.171508004.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

TAN 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy

Mae cynllunio defnydd tir yn un o'r systemau y gellir eu defnyddio i ddarparu tai fforddiadwy. Mae'r TAN yn rhoi canllawiau ymarferol ar rôl y system gynllunio wrth ddarparu tai o'r fath. Mae'r canllawiau'n diffinio tai fforddiadwy at ddibenion cynllunio ac yn rhoi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol ar sut i bennu beth sy'n fforddiadwy.

Pwysleisir yr angen i gydweithio, gan gynnwys y gofyniad i awdurdodau tai a chynllunio lleol gynnal asesiadau o'r farchnad dai leol (LHMA) ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol.

TAN 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

Mae'r TAN yn rhoi canllawiau ar y ffordd y gall y system gynllunio gyfrannu at ddarparu tai gwledig cynaliadwy a fforddiadwy (Adran 4.2).

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan2-cynllunio-tai-fforddiadwy.pdf

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan6-cymunedau-gwledig-cynaliadwy.pdf

Tystiolaeth Allweddol

Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (2017)

Mae strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru yn cymryd yr ymrwymiadau allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, ac yn eu gosod mewn cyd-destun hirdymor ac yn dangos sut maent yn ategu gwaith gwasanaethau cyhoeddus ehangach Cymru er mwyn gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

Mae'r strategaeth genedlaethol yn nodi tai fel un o bum maes â blaenoriaeth a all wneud y cyfraniad mwyaf posibl at ffyniant a llesiant hirdymor. Mae'r strategaeth yn amlinellu'r nod y dylai pawb fyw mewn cartref sy'n diwallu ei anghenion ac sy'n cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus. Tai o ansawdd da yw conglfaen cymunedau da, sy'n rhoi'r sail i unigolion a theuluoedd ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywydau. Mae'n nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- cyrraedd ein targed o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy newydd erbyn 2021, a sicrhau bod mwy o gartrefi ar gael i'w rhentu am brisiau fforddiadwy ym mhob rhan o Gymru
- gweithio gydag awdurdodau lleol i ddechrau adeiladu tai cyngor yn gyflym ac ar raddfa fawr am y tro cyntaf ers degawdau
- cysylltu tai newydd â datblygiadau seilwaith mawr newydd.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol?_ga=2.129549320.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol (ar sail 2019)

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio amcangyfrifon o'r angen am dai dros gyfnod o 20 mlynedd hyd at 2038/39 (canol blwyddyn i ganol blwyddyn). Mae'r ffigurau ar gael ar lefel genedlaethol ac ar gyfer y pedwar rhanbarth economaidd (Y Gogledd / Y Canolbarth / Y De-orllewin / Y De-ddwyrain).

Mae amcangyfrif yr angen am dai yn y dyfodol yn hanfodol wrth ddatblygu cynlluniau a strategaethau ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae amcangyfrifon Llywodraeth Cymru o'r angen am dai yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth i lywio'r broses o ddatblygu gofynion tai rhanbarthol a lleol y mae angen iddynt ystyried polisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac ystyriaethau ymarferol er mwyn llunio barn ar lefel y tai sydd ei hangen a'r hyn y gellir ei ddarparu mewn ardal mewn gwirionedd.

Ar gyfer y pum mlynedd cyntaf (2019/20 – 2023/24) mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi amcangyfrifon o'r angen am dai (a gyflwynir ar lefel genedlaethol a rhanbarthol) a rannwyd yn ddau fath o ddeiliadaeth:

- Tai'r farchnad (y sector perchen-feddianwyr a rhentu preifat)
- Tai fforddiadwy (rhentu cymdeithasol a chanolradd).

Mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai wedi llywio penderfyniadau ynghylch polisi tai yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a'r ffocws ar wneud mwy i ymateb i'r angen a nodwyd am dai fforddiadwy.

Amcangyfrifon o'r angen am dai: Ar sail 2019.
llyw.cymru/amcangyfrifon-or-angen-am-dai-sail-2019?_ga=2.160499769.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adolygiad annibynnol o'r cyflenwad tai fforddiadwy: adroddiad

Diben yr adolygiad oedd archwilio'r trefniadau presennol sy'n ategu'r gwaith o ddatblygu tai fforddiadwy a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau sydd â'r nod o gynyddu'r cyflenwad a gwella'r ddarpariaeth gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Mae'r adolygiad yn nodi bod polisi tai da a phenderfyniadau da mewn perthynas â chyflenwi tai fforddiadwy yn dibynnu ar y data gorau posibl ar yr angen a'r galw am dai. Cafodd Llywodraeth Cymru ei chanmol am fwrw ati ac asesu'r angen cenedlaethol a rhanbarthol am dai.

llyw.cymru/adolygiad-annibynnol-or-cyflenwad-o-dai-fforddiadwy-adroddiad

Papur Esboniadol

Yr Angen am Dai

Cafodd y papur esboniadol ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr FfDC drafft i ddeall sut mae'r FfDC Drafft yn ceisio mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thai ledled Cymru, gan dynnu sylw at y dystiolaeth allweddol sydd wedi llywio'r elfennau o'r cynllun sy'n ymwneud â thai.

llyw.cymru/yr-angen-am-dai-papur-esboniadol

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisi hwn yng Ngrŵp Polisi 3.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:
llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 8 – Llifogydd**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC
Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)
Mae Adrannau 6.5 a 6.6 o'r bennod Unigryw a Naturiol yn cynnig dull cynllunio cynhwysfawr ar gyfer perygl llifogydd yng Nghymru. Mae'r polisïau'n mynd i'r afael â pherygl llifogydd o'r môr, afonydd a dŵr wyneb, ac yn tynnu sylw at arwyddocâd y newid yn yr hinsawdd.

Mae'n dangos cysylltiadau rhwng perygl llifogydd a materion cynllunio eraill, fel ystyriaethau gofodol a phrosesau dewis safleoedd.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.171508004.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

TAN 15: Datblygu a pherygl llifogydd

TAN 14: Cynllunio'r arfordir

TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio

TAN 23: Datblygu economaidd

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-15-datblygu-pherygl-llifogydd

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-14-cynllunior-arfordir

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-23-datblygu-economaidd

Tystiolaeth Allweddol

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Mae'r strategaeth genedlaethol ddrafft yn nodi'r egwyddorion a'r amcanion cyffredinol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng Nghymru, gyda pholisi'r FfDC yn anelu'n benodol at gyflawni ei hamcanion ym maes cynllunio ar raddfa genedlaethol. Disgwylir i'r strategaeth gael ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2020.

llyw.cymru/y-strategaeth-ar-gyfer-rheoli-risg-llifogydd-ac-erydu-arfordirol

Cyfoeth Naturiol Cymru: Mapiau perygl llifogydd hirdymor

Mae mapiau llifogydd yn cyflwyno gwybodaeth dechnegol am yr ardaloedd gofodol sy'n wynebu perygl llifogydd o fathau amrywiol, a hynny o fewn senarios byrdymor, tymor canolig a hirdymor amrywiol. Mae'r amrywiaeth o fapiau a reolir ac a gyhoeddir gan CNC yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth ar bob cam o'r system gynllunio, ac maent wedi rhoi cyd-destun pwysig i bolisi'r FfDC.

naturalresources.wales/evidence-and-data/maps/long-term-flood-risk/?lang=cy

Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r mesurau, y camau gweithredu a'r gwaith ymchwil sydd eu hangen i ddatblygu ein gallu i addasu i'r newid yn yr hinsawdd yng Nghymru. Mae dull gweithredu polisi'r FfDC yn adlewyrchu ei nodau.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-syn-effro-ir-hinsawdd?_ga=2.101106821.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel

Cydnabyddir drwy'r ddogfen hon mai llifogydd yw un o brif effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Mae'n nodi'r angen i ddatgarboneiddio yng Nghymru ac yn amlinellu ffyrdd o gyflawni hynny. Mae dulliau naturiol o reoli llifogydd yn thema allweddol, ac adlewyrchir hynny ym mholisi'r FfDC.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol?_ga=2.209567766.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisi hwn yng Ngrŵp Polisi 4.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn a Seilwaith Gwyrdd**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC  Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Mae PCC yn nodi polisi cynhwysfawr mewn perthynas â chreu lleoedd, bioamrywiaeth, tirwedd a seilwaith gwyrdd:

Asesu Manteision Cynaliadwy Datblygu (2.21-2.23); Dylunio (3.7-3.10. 3.14) Lleoedd Iachach (3.19-3.24); Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (3.30-3.33); Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig (3.34-3.35); Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (3.54-3.55); Rheoli Ffurf Aneddiadau (3.60-3.74); Cyfleusterau Cymunedol (4.4); Mannau Hamdden (4.5) Twristiaeth (5.5); Yr Economi Wledig (5.6); Diogelu Nodweddion a Phriodoleddau Arbennig Lleoedd (5.14.35-5.14.41); Adfer ac Ôl-ofal (5.14.50-5.14-55); Seilwaith Gwyrdd (6.2); Tirwedd (6.3), Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol (6.4); Ardaloedd Arfordirol (6.5.3-8, 6.5.12-13, 6.5.17-20); Dŵr (6.6.5-6, 6.6.14-19); Ansawdd Aer a Seinwedd (6.7.8, 6.7.10, 6.7.12, 6.7.16-18, 6.7.25);  Dadrisgio (6.9.3, 6.9.8-9).

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio

TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored

TAN 15: Datblygu a pherygl llifogydd

TAN 14: Cynllunio'r arfordir

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-15-datblygu-pherygl-llifogydd

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-14-cynllunior-arfordir

Llythyr Annwyl Brif Swyddog Cynllunio
llyw.cymru/gwelliannau-bioamrywiaeth-canllawiau-ar-gyfer-penaethiaid-cynllunio

Tystiolaeth Allweddol

Polisi Adnoddau Naturiol 2017

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i roi'r Polisi ar waith ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol yw:

- Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur

- Cynyddu ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd.

Nod y polisïau a'r camau gweithredu yw meithrin mwy o gydnerthedd yn ein hecosystemau drwy weithredu'n seiliedig ar leoedd a natur.

Mae hyn yn golygu diogelu asedau bioamrywiaeth a chwilio am gyfleoedd i greu ac adfer cynefinoedd er mwyn helpu i liniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo, rheoli tir a dŵr yn well a darparu mwy o seilwaith gwyrdd ym mhob math o leoedd yng Nghymru.

Ar y cyd â'r polisi presennol yn PCC, gall yr FfDC gyfrannu at wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chryfhau rhwydweithiau ecolegol drwy wneud y canlynol:

- Diogelu safleoedd dynodedig ac asedau bioamrywiaeth sydd eisoes yn bodoli rhag effeithiau sy'n gwanhau cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol yn uniongyrchol, gan gynnwys yr elfennau sy'n sail iddynt, a cheisio eu cryfhau ymhellach (yn unol â'r nodweddion, e.e. gwella amrywiaeth a chysylltedd drwy ddylunio)
- Gwella'r cysylltiadau rhwng cynefinoedd (o bob math) ac annog y gwaith o greu ac adfer cynefinoedd, drwy ddulliau fel lleiniau clustogi, coridorau a cherrig llamu.
- Diogelu safleoedd dynodedig ac asedau bioamrywiaeth sydd eisoes yn bodoli drwy leihau effeithiau datblygiadau o safbwynt cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac ecolegol ehangach. Mae hyn yn golygu datblygu mewn ffordd integredig er mwyn sicrhau'r manteision lluosog posibl, gan gynnwys y rhai a ddaw yn sgil dulliau rheoli ar sail natur fel seilwaith gwyrdd ond gan gynnwys hefyd hyrwyddo dewisiadau mewn perthynas â defnyddio adnoddau'n effeithlon ac iechyd a llesiant unigolion a chymunedau.

Mae ein tirweddau naturiol (parciau cenedlaethol, AHNEau, Llwybr Arfordir Cymru) hefyd yn atyniadau ac asedau pwysig i dwristiaid, ac yn rhan bwysig o economi Cymru. Mae tirweddau'n rhan hanfodol o ddulliau sy'n seiliedig ar leoedd ac ar natur. Mae gan bob lle ei rinweddau, ei gyfleoedd a'i swyddogaethau unigryw y mae PCC yn eu cydnabod ac y bydd CNC yn eu hystyried wrth ddatblygu datganiadau ardal.

Mae sawl diben i seilwaith gwyrdd; mae'n amlswyddogaethol. Ar raddfa ofodol genedlaethol, gellir ei ddefnyddio i wneud y canlynol:

- diogelu bioamrywiaeth, creu/adfer cynefinoedd a gwella'r cysylltiadau rhwng cynefinoedd a, thrwy hynny, gryfhau rhwydweithiau ecolegol
- datrys problemau cywasgu a selio pridd, gan gyfrannu at liniaru llifogydd a rheoli dŵr a lliniaru llygredd aer
- sicrhau manteision i lesiant ac iechyd pobl drwy osod seilwaith gwyrdd wrth wraidd ein cymunedau er mwyn darparu lle ar gyfer hamdden, coridorau teithio i feiciau a cherddwyr, cydnerthedd rhag llifogydd a gwres, gwella ansawdd aer a darparu lleoedd pwysig ar gyfer natur.

Yn gyffredinol, gallai camau yn yr FfDC i fynd i'r afael â chydnerthedd, cymeriad y dirwedd a seilwaith gwyrdd olygu:-

- cymryd camau rhagweithiol ac ataliol mewn perthynas â chynefinoedd sy'n arbennig o agored i niwed gan newid yn sgil pwysau datblygu. Mae hyn yn cynnwys gorlifdiroedd ac ardaloedd trefol, gan gynnwys coetiroedd, ac annog atebion penodol mewn lleoedd penodol, er enghraifft diogelu ac annog gorchudd coed mewn ardaloedd trefol, diogelu gorlifdir ac osgoi ei ddarnio drwy ddatblygu, sicrhau bod draenio cynaliadwy yn rhan o bob datblygiad trefol
- osgoi gwanhau cydnerthedd. Ceir cyfleoedd i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, pridd wedi'i gywasgu a'i selio mewn

ardaloedd trefol ac amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol mewn ardaloedd trefol ac ymylon arfordirol

- diogelu tirweddau statudol ac anstatudol a dynodiadau diwylliannol
- gwneud y gorau o fanteision ecosystemau. Ceir cyfleoedd i ddarparu systemau draenio cynaliadwy, dylunio mewn ffordd sy'n sensitif i ddŵr, rheoli dŵr a lefelau carbon yn y pridd ac ystyried sut i addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn ehangach, er enghraifft, perygl llifogydd, ansawdd aer a thymheredd uwch, y cyfan mewn ardaloedd trefol.

llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol?_ga=2.209046806.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (2016)

Mae dyletswydd ar CNC i gyhoeddi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sy'n cyflwyno'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir ledled Cymru i lywio penderfyniadau, i allu pennu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac i nodi cyfleoedd i sbarduno twf gwyrdd a gwneud cymunedau'n fwy cydnerth. Cyhoeddwyd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol statudol cyntaf CNC ym mis Medi 2016.

Mae'r Adroddiad yn nodi'r cynefinoedd a'r poblogaethau o rywogaethau sydd wedi'u colli dros y ganrif ddiwethaf ac yn awgrymu ei fod yn ddirywiad cronig, y bydd y dirywiad yn parhau yn sgil pethau sydd eisoes wedi digwydd, neu a fydd yn digwydd, oherwydd y newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd yn y dyfodol. Yn gryno, nid yw ecosystemau Cymru'n ddigon cydnerth, a gwelir hynny'n bennaf yn y ffaith nad yw rhywogaethau'n ymadfer. Dim ond newid sylweddol a wnaiff wrthdroi'r newid.

Ymhlith y materion allweddol ar gyfer yr FfDC sy'n deillio o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol mae:

- Byddai gwrthdaro'n tueddu i ddigwydd ar yr iseldir a'r gorlifdir, sef lle mae'r heriau mwyaf i gydnerthedd. Ond mae hyn hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i fynd i'r afael â phroblemau adeiladu ar orlifdir, llygredd gwasgaredig, cywasgu a selio pridd mewn ardaloedd trefol ac amddiffyn rhag llifogydd mewn ardaloedd trefol ac ymylon arfordirol.
- Mae cydnerthedd coridorau afonydd yn arbennig o agored i niwed.
- Gall fod cyfleoedd i greu neu adfer cynefinoedd ar hyd coridorau cludiant o bob maint.
- Dylid ystyried cyfleoedd i neilltuo tir ar gyfer adfer cynefinoedd neu greu rhai newydd. Gallai hyn gynnwys lleiniau clustogi o amgylch safleoedd dynodedig a chreu 'cerrig llamu'.
- Sicrhau seilwaith gwyrdd, er mwyn mynd i'r afael â dirywiad rhywogaethau a chynnal cydnerthedd, ond hefyd i sicrhau manteision rheoli dŵr yn well a gwella ansawdd dŵr (a sicrhau systemau draenio cynaliadwy), dylunio mewn ffordd sy'n sensitif i ddŵr, rheoli carbon pridd, gwella ansawdd aer a lliniaru bygythiadau eraill i iechyd a llesiant, fel sŵn, tymereddau uwch a diffyg mynediad at fannau gwyrdd.
- Er mwyn i rywogaethau (amrywiaeth) a phobl (llesiant ac iechyd) allu addasu i newid, ar ffurf y newid yn yr hinsawdd yn bennaf, rhaid gweithredu i ddiogelu maint, cyflwr a chysylltedd rhwydweithiau ecolegol.
- Mae ymateb i'r newid yn yr hinsawdd yn angenrheidiol er mwyn cryfhau rhwydweithiau ecolegol ac yn un o'r manteision sy'n gysylltiedig â gwneud hynny. Mae cynefinoedd yn gweithio fel storfeydd carbon a gallant helpu i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac mae cysylltiadau rhwng cynefinoedd yn angenrheidiol er mwyn i rywogaethau allu addasu a, thrwy hynny, wella cydnerthedd ecolegol i'r newid yn yr hinsawdd. Mae rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn diogelu pobl rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd hefyd, e.e. addasu i lifogydd.

Datganiadau Ardal

Mae CNC wedi llunio Datganiadau Ardal a fydd yn hwyluso'r broses o roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith ar lefel leol. Cyhoeddwyd y Datganiadau Ardal cyntaf ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Mae'n hanfodol bwysig cydweithio ar y raddfa gywir ac yn y lleoedd cywir er mwyn mynd i'r afael â'r materion a manteisio i'r eithaf ar adnoddau naturiol Cymru.

Bydd Datganiadau Ardal yn chwarae rhan allweddol wrth adnabod cyfleoedd a chyfyngiadau lleol a'u cysylltiad â'r blaenoriaethau cenedlaethol. Drwy wneud hynny, byddant yn cynnig sylfaen dystiolaeth allweddol ar gyfer cydweithio ac yn cysylltu â'r gwaith o ddatblygu a chyflawni'r fframwaith ehangach ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy

### Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017

Mae'n trafod tueddiadau'r presennol a'r dyfodol sy'n effeithio ar Gymru. Yn ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd, defnydd tir ac adnoddau naturiol.

Oherwydd y cynhesu sydd eisoes wedi digwydd, ynghyd â rhywfaint o gynhesu pellach, o leiaf (fel y rhagwelir gan y dystiolaeth ddiweddaraf o'r newid yn yr hinsawdd), bydd angen rhagor o addasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Bydd bioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru dan fwy byth o bwysau, gan adlewyrchu'r sefyllfa fyd-eang. Er y bu gwelliannau dros y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig o ran ansawdd dŵr a rhai elfennau o ansawdd aer, mae llawer o'n hadnoddau naturiol a chydnerthedd ecosystemau Cymru yn parhau i ddirywio (fel yr adlewyrchir yn Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2016).

I grynhoi, dylai'r FfDC ystyried yr effeithiau canlynol ar fioamrywiaeth a chynefinoedd Cymru:

- Bydd angen addasu i'r newid yn yr hinsawdd oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig ag achosion amlach a mwy difrifol o dywydd garw a thanau gwyllt.
- Mae'n debygol y bydd llawer o'n hadnoddau naturiol, a chydnerthedd ecosystemau, yn dirywio. Mae'r newid yn yr hinsawdd yn dylanwadau ar ehangiad neu gyfangiad amrywiaethau a phoblogaethau rhai rhywogaethau.
- Bydd yr 20 mlynedd nesaf yn allweddol wrth benderfynu pa rai o'r senarios cynhesu hirdymor fydd yn digwydd a'r camau y bydd angen eu cymryd i addasu iddynt.

llyw.cymru/tueddiadaur-dyfodol-2017?_ga=2.209046806.580004829.1600676113-620607912.1597653541

### Cynllun Adfer Natur Cymru (2015)

Y Cynllun Adfer Natur yw Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol Cymru. Mae'n nodi sut y bydd Cymru'n cyflawni ymrwymiadau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol a Strategaeth Bioamrywiaeth yr UE, a hefyd nod 'Cymru gydnerth' Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau hyn, mae'r Cynllun Adfer Natur yn amlinellu uchelgais hirdymor, sef "gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth, oherwydd bod iddi werth cynhenid, a sicrhau budd sy'n para i'r gymdeithas".

Mae pob un o'r chwe amcan ar gyfer helpu i adfer bioamrywiaeth yn berthnasol i'r FfDC. Yn benodol:

- rhaid i fioamrywiaeth fod yn ystyriaeth sylfaenol ym mhob penderfyniad ar bob lefel

- rhaid i'r hyn a wneir ddiogelu safleoedd dynodedig a gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd a dylent fod yn graidd i rwydweithiau mawr yn hytrach nag yn ynysoedd yn y dirwedd
- dylai hyn gynnwys cyfleoedd i adfer cynefinoedd sydd wedi dirywio ac i greu cynefinoedd, eu diogelu rhag eu darnio ac integreiddio seilwaith gwyrdd.

llyw.cymru/cynllun-gweithredu-adfer-natur-2015?_ga=2.201379093.580004829.1600676113-620607912.1597653541

### Tirweddau Cenedlaethol: Gwireddu eu Potensial – Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru – Adroddiad Terfynol (Gorffennaf 2015)

Roedd yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru yn ystyried y swyddogaethau, y strwythurau llywodraethu a'r weledigaeth ar gyfer tirweddau dynodedig yng Nghymru fel rhan o'r gwaith o ystyried rôl awdurdodau parciau cenedlaethol fel awdurdodau cynllunio yn y dyfodol yng nghyd-destun Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ystyriwyd y tri pharc cenedlaethol a'r pum Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Gwneir nifer o argymhellion yn yr Adolygiad, sy'n ymwneud â pholisïau, prosesau a strwythurau llywodraethu ar gyfer y dynodiadau hyn. Mae'r Adolygiad hefyd yn cynnig gweledigaeth newydd ar gyfer 'Tirweddau Cenedlaethol Cymru', sef::

- eu bod yn dod yn "ffatrïoedd llesiant pwysig" sy'n ysgogi mwy o bartneriaethau menter lleol, tai fforddiadwy cynaliadwy, twristiaeth, ynni gwyrdd a mentrau manwerthu
- eu bod yn gwella bywydau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy eu tri diben
- bod eu rhinweddau arbennig yn cael eu cynnal, eu gwella a'u gwerthfawrogi'n eang
- eu bod yn cael eu cydnabod fel rhan allweddol o seilwaith gwyrdd Cymru
- eu bod yn ardaloedd ar gyfer cydweithio arloesol sy'n seiliedig ar le ac sy'n mynd i'r afael â'r heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n wynebu Cymru
- eu bod yn cael eu gweld ledled y byd fel arweinwyr ym maes datblygu cynaliadwy.

Dylai'r FfDC gydnabod y byddai tirweddau gwarchodedig yn rhan o unrhyw ddull cyffredinol o ddiogelu cydnerthedd ecosystemau. Maent yn elfennau allweddol o'r seilwaith gwyrdd cenedlaethol sydd eisoes yn ceisio darparu ar gyfer manteision lluosog.

llyw.cymru/adolygiad-o-ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-pharciau-cenedlaethol-2015

### Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru – Yr Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru (Mai 2017)

Cyhoeddwyd yr Adroddiad hwn yn sgil yr Adroddiad ar yr Adolygiad o Dirweddau Dynodedig yng Nghymru ac mae'n pwysleisio y dylai tirweddau dynodedig ysgogi dulliau cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol yn eu hardaloedd.

Partneriaeth Tirweddau'r Dyfodol a'i luniodd a chafodd ei gyhoeddi gan Ysgrifenyddiaeth y Cabinet ar ran y bartneriaeth. Barn ystyriol y bartneriaeth ar rôl bresennol a phosibl tirweddau dynodedig yng nghyd-destun deddfwriaethol a pholisi Cymru a geir yn yr Adroddiad hwn.

Mae'n nodi y dylai sefydliadau sy'n rheoli tirweddau dynodedig wneud y canlynol wrth ysgogi ffyrdd cynaliadwy o reoli adnoddau naturiol yn eu hardaloedd:

- datblygu cyfleoedd ar gyfer eu hardaloedd gan gynnwys ar gyfer 'twf gwyrdd'
- ysbrydoli, grymuso a chefnogi cymunedau lleol i weithredu drwy gynllunio yn seiliedig ar leoedd, gan gynnwys eu dylanwad ar safleoedd datblygu, yr hyn sy'n gwneud ardaloedd yn unigryw,

syniadau newydd ar gyfer yr economi werdd, seilwaith cymunedol a thwristiaeth werdd a thwristiaeth sy'n gysylltiedig â threftadaeth.

Mae'r materion hyn yn hollbwysig ond gellir dadlau mai awdurdodau'r parciau cenedlaethol a'r awdurdodau lleol perthnasol a ddylai fynd i'r afael â nhw yn fanwl. Mae seilwaith gwyrdd yn ffordd gydnabyddedig sydd wedi ennill ei phlwyf o wireddu a sicrhau manteision lluosog drwy'r system gynllunio, ac mae PCC eisoes yn darparu fframwaith yn hyn o beth.  Fodd bynnag, byddent yn cael eu hystyried fel rhan o unrhyw ddull cyffredinol genedlaethol mewn perthynas â seilwaith gwyrdd a chydnerthedd ecosystemau cenedlaethol y bydd yr FfDC yn ei ddatblygu.

llyw.cymru/ardaloedd-o-harddwch-naturiol-eithriadol-pharciau-cenedlaethol-2017

### Y Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol



Mae'r cyd-destun polisi byd-eang yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol 1992. Mae llofnodwyr y Confensiwn yn ymrwymedig i ddatblygu strategaethau, cynlluniau neu raglenni cenedlaethol ar gyfer gwarchod eu hamrywiaeth fiolegol a'i defnyddio'n gynaliadwy, ac ymgorffori hynny, hyd y gellir ac fel y bo'n briodol, mewn cynlluniau, rhaglenni a pholisïau sectorol a thraws-sector perthnasol.

Mae'r Confensiwn yn nodi 12 o egwyddorion gweithredol sy'n canolbwyntio ar reoli bioamrywiaeth mewn ffordd sy'n seiliedig ar ecosystemau. (Fel y crynhoir yn y Cynllun Adfer Natur, Atodiad 2)

Targedau Aichi: Lluniwyd y rhain i gyflawni nodau'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol. Mae Targed 2 yn cyfeirio'n benodol at integreiddio gwerthoedd bioamrywiaeth mewn prosesau datblygu a chynllunio cenedlaethol a lleol ac ymgorffori'r gwerthoedd hyn o fewn systemau cyfrifyddu cenedlaethol, fel y bo'n briodol, a systemau adrodd erbyn 2020.

Dylai'r FfDC gymryd camau i atal colli bioamrywiaeth a dirywiad gwasanaethau ecosystem, a'u hadfer i'r graddau y mae hynny'n bosibl, a chryfhau cyfraniad yr UE at atal rhagor o golledion ym mioamrywiaeth y byd.

www.cbd.int/ (Saesneg yn unig).

www.cbd.int/sp/targets/ (Saesneg yn unig).

### Mapiau presennol o safleoedd dynodedig

Mae'r mapiau o safleoedd dynodedig wedi'u cynnwys yn Ffigur 1 adroddiad cwmpasu'r Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI): gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/figure-1-designated-nature-conservation-sites.pdf (Saesneg yn unig).

Mae hyn yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, Natura 2000, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Morol.

Cafodd tirweddau gwarchodedig cenedlaethol eu hystyried hefyd – gan gynnwys parciau cenedlaethol ac AHNEau.

Mae fframwaith ACI ar gyfer asesu yn ymdrin â safleoedd dynodedig yn amcan ACI 16 – Creu cyfleoedd i warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a geoamrywiaeth. Y cwestiwn mwyaf perthnasol sy'n helpu i wneud penderfyniadau mewn perthynas â safle dynodedig yw – A wnaiff yr FfDC greu cyfleoedd ar gyfer gwarchod a chyfoethogi cynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd cadwraeth natur dynodedig a heb eu dynodi?

Mae PCC a TAN 5 Cadwraeth Natur yn cynnwys polisïau cynhwysfawr ynghylch safleoedd dynodedig. Mae lleoliadau safleoedd yn hysbys ac yn gyfarwydd. Felly, mae angen penderfynu yng nghyd-destun hyn a ddylai safleoedd dynodedig (o bwys cenedlaethol neu fwy) gael eu mapio fel rhan o'r FfDC a bod yn destun polisi penodol ac a oes blaenoriaethau polisi clir o blaid gwneud hynny. Dylai rhesymau o'r fath allu adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn PCC a TANs perthnasol a mynd y tu hwnt i hynny.

Bydd Datganiadau Ardal yn ffynhonnell newydd o ddata, gwybodaeth a mapiau ar lefel rhanbarth ac isranbarth.

Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn nodi cynefinoedd/mathau o ddefnydd tir a gall fod ffordd o ddefnyddio'r mapiau i ddatblygu dull mwy gofodol. Dechreuwyd cynnal deialog â CNC i weld a oes rhagor o dystiolaeth ar gael.

gov.wales/sites/default/files/publications/2019-08/figure-1-designated-nature-conservation-sites.pdf (Saesneg yn unig).

### Cydweithio â CNC – Datblygu ffordd o ddarparu mapiau ymlaen llaw i gefnogi Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) a Datganiadau Ardal

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi mapiau i ddangos ardaloedd bras lle y gall fod rhwydweithiau ecolegol/seilwaith gwyrdd o bwys cenedlaethol, a hynny fel sail ar gyfer hybu camau i warchod a chyfoethogi bioamrywiaeth a chryfhau ecosystemau a chydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd strategol.

Darparwyd mapiau ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Sylweddolwyd y byddai modd deall ecosystemau yn fanylach ar raddfa ranbarthol a lleol ac, o ganlyniad i hynny, y byddai angen i gynlluniau datblygu strategol a lleol ddatblygu'r dull gweithredu ar raddfa fanylach. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth fel rhan o'r Datganiadau Ardal.

Gyda'i gilydd, mae'r mapiau'n rhoi trosolwg cenedlaethol gwerthfawr o rwydweithiau cydnerth a seilwaith gwyrdd strategol. Yn eu hanfod, maent yn Asesiad Seilwaith Gwyrdd ar raddfa genedlaethol, lefel uchel. Fodd bynnag, byddai'n well rhoi hyn ar waith ar lefelau rhanbarthol a mwy lleol. Mae'r casgliadau allweddol ar gyfer yr FfDC fel a ganlyn:

- Mae safleoedd gwarchodedig yn ganolog i rwydweithiau cydnerth, ond nid dyna'r stori gyfan.
- Mae'r wybodaeth hon yn datgelu patrwm bras cydnerthedd ond dim ond mewn ffordd ddangosol y gellir defnyddio'r wybodaeth a gaiff ei mapio ar raddfa genedlaethol.
- Er nad oes modd eu gweld ar raddfa genedlaethol, gall rhwydweithiau a mannau ecolegol-gyfoethog lleol fod yn bwysig iawn o hyd.
- Mae angen ystyriaeth fanylach o'r camau y mae angen eu cymryd i gefnogi'r ardaloedd mwyaf cydnerth ac i fynd i'r afael â'r ardaloedd hynny nad ydynt yn dangos arwyddion cryf o gydnerthedd.
- Bydd Datganiadau Ardal yn esgor ar fapiau manylach lleol y gellid eu defnyddio law yn llaw â'r mapiau cenedlaethol hyn i lywio penderfyniadau ar lawr gwlad.

Map Adnoddau Naturiol Cenedlaethol: mapiau ychwanegol fel rhan o brosiect cydweithredol â CNC.

Fel rhan o brosiect cydweithredol parhaus â CNC, gofynnodd Llywodraeth Cymru i CNC greu map dangosol o adnoddau naturiol cenedlaethol i ategu'r FfDC.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru amrywiaeth eang o ddata sydd ar gael o brosiectau mapio gwasanaethau ecosystem blaenorol a daethpwyd â'r gwaith hwn ynghyd i greu'r map adnoddau naturiol cenedlaethol. Defnyddiwyd mapiau ar gyfer yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal. Mae'r allbynnau'n adlewyrchu'r themâu a geir yn yr Adroddiad Interim ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol – sef y newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth, economi gylchol a seilwaith gwyrdd.

Mae'r Map Adnoddau Naturiol Cenedlaethol ar gyfer yr FfDC i'w weld yn Atodiad 1.

*Dal a storio carbon*: mae'r map yn dangos ardaloedd lle y caiff llawer o garbon ei storio ar ffurf dotiau brown, lled-dryloyw. Mewn ardaloedd lle mae llawer o ddotiau'n gorgyffwrdd, mae'r lliwiau'n ymddangos yn dywyllach; dyma'r ardaloedd daearol sy'n storio'r mwyaf o garbon yng Nghymru ar hyn o bryd.

*Rheswm dros eu cynnwys*: gall cynnal ardaloedd sy'n storio llawer o garbon ar hyn o bryd, boed yn y pridd neu fel rhan o lystyfiant prennaidd, helpu i leihau difrifoldeb y newid yn yr hinsawdd. Mae rhai ardaloedd yn mynd ati i ddal a storio carbon, gan ei dynnu allan o'r atmosffer. Mae'r rhan fwyaf o lystyfiant sy'n tyfu'n barhaus dros amser yn dal a storio carbon, gyda rhai mathau'n dal a storio mwy nag eraill.

***Dulliau Naturiol o Reoli Llifogydd:*** mae'r map yn defnyddio symbolau tonnau glas i ddangos lleoliadau sydd o bwys arbennig o ran dulliau naturiol o reoli llifogydd.

*Rheswm dros eu cynnwys*: Mae llifogydd wedi digwydd yn amlach ac wedi bod yn fwy difrifol dros y blynyddoedd diwethaf ac, o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, rhagwelir y bydd hynny'n parhau. Gall dulliau naturiol o reoli llifogydd helpu i reoli perygl llifogydd a rhoddwyd sylw penodol i ardaloedd lle y ceir llawer o ddarpariaeth sydd wedi'u lleoli o fewn dalgylchoedd sy'n wynebu problemau llifogydd mewn ardaloedd trefol ymhellach i lawr yr afon.

***Bioamrywiaeth***: mae tair agwedd ar fioamrywiaeth wedi cael eu mapio, sef llecynnau cyfoethog, cysylltedd rhwydweithiau cynefinoedd a chynefinoedd ucheldir. Mae'r mapiau'n dangos y llecynnau sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth ar hyn o bryd (gwerth bioamrywiaeth eithriadol o uchel) gan ddefnyddio symbol clwyd werdd, y rhwydweithiau ecolegol cryfaf gan ddefnyddio saethau (mae llawer o rwydweithiau llai sy'n arwyddocaol yn lleol, ond ni ellid arddangos y rhain ar y raddfa genedlaethol strategol hon) a'r ardaloedd lle y ceir cynefinoedd ucheldir ar hyn o bryd gan ddefnyddio symbolau clwyd porffor (yn seiliedig ar fap rhwydweithiau Lefel 2 CNC ar gyfer gweundir ucheldir).

*Rheswm dros eu cynnwys*: am eu bod yn debygol o gynrychioli bioamrywiaeth a chydnerthedd ledled Cymru. Yn aml, yr ardaloedd â'r mwyaf o fioamrywiaeth yw'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau ecosystem mwyaf ac sy'n gallu addasu'n well i bwysau fel y newid yn yr hinsawdd a chyfrannu at gydnerthedd gwasanaethau ecosystem.

Mae ardaloedd â chysylltedd ecolegol da yn galluogi bioamrywiaeth i symud, yn cyfrannu at gynnal cydnerthedd genetig ac i brosesau naturiol weithredu ar draws ardaloedd ehangach. Cânt eu cydnabod fel un o nodweddion allweddol cydnerthedd ecosystem, sy'n helpu i gynnal bioamrywiaeth yn wyneb pwysau fel newid mewn defnydd tir neu lygredd. Yr ucheldiroedd sy'n gysylltiedig â'r amrywiaeth fwyaf o ran cynefinoedd naturiol a thynnwyd sylw atynt er mwyn dangos eu rôl unigryw wrth gefnogi bioamrywiaeth Cymru.

***Graffiau Mannau Gwyrdd Trefol***: mae'r map yn dangos graffiau ar gyfer y canolfannau twf a nodwyd yn y FfDC sy'n dangos y ganran o fannau gwyrdd hygyrch ym mhob rhanbarth ar gyfartaledd (bariau gwyrdd) a'r pellter cerdded cyfartalog o unrhyw ran o'r ardal drefol i'r man gwyrdd agosaf (bariau brown).

*Rheswm dros eu cynnwys*: Mae'r ddau fetrig hyn yn helpu i greu trosolwg o'r mannau gwyrdd a ddarperir yn y canolfannau twf arfaethedig a pha mor hawdd y gellir eu cyrraedd.

***Ardaloedd sy'n cynhyrchu gwasanaethau ecosystem lluosog (llecynnau cyfoethog o ran ecosystemau)***: ar gyfer pob rhanbarth, tynnwyd sylw at rai o'r llecynnau cyfoethog pwysicaf o ran cynhyrchu gwasanaethau ecosystem lluosog, gan ddefnyddio labeli i ddangos lleoliad y safle a disgrifiad byr o'r mathau o wasanaethau a gynhyrchir yn yr ardal.

*Rheswm dros eu cynnwys*: er mwyn rhoi syniad o werth gwasanaethau ecosystem lluosog. Bydd gwasanaethau ecosystem yn aml yn ymddangos fel bwndeli gyda'r un ardaloedd yn cynhyrchu nifer o wasanaethau ar yr un pryd. Gall fod yn anodd ail-greu'r cyfuniad o wahanol fanteision a gynigir gan yr ardaloedd hyn, boed yn yr un lle neu rywle arall. Felly, gallai colli'r ardaloedd hyn gael effaith sylweddol ar ddarparu gwasanaethau ecosystem.

***Bwyd a Choed (darparu gwasanaethau ecosystem)***: mae'r map yn dangos y tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas mewn melyn golau ac yn defnyddio symbolau coedwig gwyrdd i dynnu sylw at leoliadau o bwys penodol o ran cynhyrchu coed.

*Rheswm dros eu cynnwys*: mae darparu gwasanaethau ecosystem yn disgrifio'r holl wasanaethau sy'n darparu nwyddau ffisegol, fel bwyd neu goed, i bobl. Y tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yw'r tir pwysicaf o ran cynhyrchu bwyd a sicrwydd yng Nghymru ac mae coed yn adnodd byd-eang pwysig ac, os cânt eu rheoli'n briodol, gallant hefyd gefnogi prosesau dal a storio carbon a bioamrywiaeth.

Adroddiad yr Ymgynghoriad ar y Prif Faterion a'r Opsiynau
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-crynodeb-o-ymatebion.pdf

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisi hwn yng Ngrŵp Polisi 5.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 10 – Cysylltedd Rhyngwladol;**

**Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol; a**

**Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC
Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)
Mae PCC am leihau'r angen i deithio a lleihau hyd teithiau a'i gwneud hi'n haws i bobl gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (Adran 4.1). Mae'n datgan bod yn rhaid integreiddio gwaith cynllunio defnydd tir a thrafnidiaeth.

Mae'r FfDC yn ymgorffori'r ffordd gadarnhaol rydym yn mynd ati i gynyddu nifer y cerbydau allyriadau isel iawn a ddefnyddir yn PCC, ac yn adeiladu ar hynny, gan gynnwys gwneud seilwaith gwefru ar gyfer cerbydau trydan yn ofynnol mewn datblygiadau annomestig (Adran 4.1).

Mae PCC o blaid tyfu a gwella meysydd awyr a'u seilwaith yng Nghymru a gwella cysylltiadau trafnidiaeth iddynt, ar ffyrdd a rheilffyrdd, yn enwedig y rhai sy'n gwella hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus (Adran 5.3). Mae'n nodi y dylai cynlluniau datblygu gynnwys polisïau sy'n mynd i'r afael â datblygu seilwaith meysydd awyr a gwasanaethau cysylltiedig, a hyrwyddo mynediad gan ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, a sicrhau y caiff effeithiau amgylcheddol eu hystyried.

Mae PCC yn cydnabod rôl porthladdoedd wrth wneud Cymru'n lleoliad deniadol i fusnesau, ymwelwyr a chludwyr nwyddau (Adran 5.3). Mae'n nodi bod cymorth a buddsoddiad yn y cyfleusterau hyn yn datgloi'r potensial i hybu'r economi yn uniongyrchol, drwy gynyddu'r defnydd o'r cyfleusterau, ac yn anuniongyrchol drwy'r cyfleoedd y mae gwell seilwaith trafnidiaeth forol yn eu cynnig i sectorau eraill.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)
Mae TAN 18: Trafnidiaeth yn cydnabod bod Maes Awyr Caerdydd o arwyddocâd cenedlaethol. Mae'n nodi y dylai cynlluniau datblygu ystyried cyfraniad traffig awyr at yr economi leol ac economi Cymru ac yn tynnu sylw at fanteision cael cyfleusterau ategol neu ddibynnol addas. Fodd bynnag, noda y dylid cydbwyso hyn â'r effaith amgylcheddol ar ardaloedd cyfagos o ran mynediad at ffyrdd a rheilffyrdd, y traffig a'r sŵn cysylltiedig neu ddiogelu gorlifdir.

Mae TAN 18 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio sicrhau nad yw datblygiadau y bwriedir iddynt adfywio porthladdoedd yn anghydnaws ag unrhyw weithrediadau porthladd cyfagos.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-18-trafnidiaeth?_ga=2.197584043.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Tystiolaeth Allweddol

Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008)
Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl sy'n rhoi'r fframwaith polisi strategol ar gyfer gweithgareddau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thrafnidiaeth hyd at 2030. Gan ymdrin â phob dull teithio, mae'r strategaeth yn disgrifio blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r canlyniadau y mae am eu gweld.

Mae'n cydnabod bod llwybrau awyr yn chwarae rhan arwyddocaol wrth sicrhau cysylltedd rhyngwladol ar gyfer twristiaeth a busnes ac yn ymrwymo i wella cysylltedd drwy wella cysylltiadau (yn enwedig trafnidiaeth gyhoeddus) i Faes Awyr Caerdydd a meysydd eraill sy'n gwasanaethu Cymru.

Mae'n nodi awydd Llywodraeth Cymru i annog mwy o forgludiant byr drwy borthladdoedd Cymru.

llyw.cymru/strategaeth-drafnidiaeth?_ga=2.126951433.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel (2019)
Mae'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu datgarboneiddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, y sector ynni a busnesau i gynllunio ar gyfer seilwaith gwefru cerbydau trydan a'i roi ar waith fesul cam. Mae'r FfDC yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau hyn i gynyddu nifer y cerbydau trydan a cherbydau allyriadau isel a ddefnyddir.

llyw.cymru/cynllun-cyflawni-carbon-isel

Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Mawrth 2019)
Yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei wneud i dyfu economi Cymru.

Mae'n cefnogi datblygiad masnachol a thwf gwasanaethau Maes Awyr Caerdydd.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi

Cynllun Strategol Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan 2018 – 2021
Mae'n nodi'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan yn y dyfodol.

Mae'r cynllun yn nodi'r bwriad i barhau i hyrwyddo'r arbenigedd presennol mewn awyrofod a'r cyfle ar gyfer gweithgarwch newydd yn y maes. Mae hefyd yn disgrifio'r bwriad i gefnogi pob sector, gan ganolbwyntio ar ansawdd swyddi, sgiliau, hyfforddiant, dylunio, ymchwil a datblygu ac arloesi ac ar sefydlu pencadlysoedd yng Nghymru.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/ardal-fenter-maes-awyr-caerdydd-a-sain-tathan-2018-2021.pdf

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019)
Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'n moroedd mewn ffordd gynaliadwy dros yr 20 mlynedd nesaf.

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn cyflwyno gweledigaeth i borthladdoedd ar gyfer cynllunio eu gweithgareddau heddiw ac yn y dyfodol, gan gynnwys opsiynau ar gyfer ehangu ac arallgyfeirio.

llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-dogfen

Ehangu Porthladd Caergybi (2017)
Manylion y cynlluniau i ehangu Porthladd Caergybi.

Gwybodaeth am waith sgrinio a chwmpasu'r asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer y cynlluniau arfaethedig i ehangu Porthladd Caergybi.

www.gov.uk/government/publications/port-of-holyhead-expansion (Saesneg yn unig).

Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2013 gan gynnwys Uwchgynllun Porthladd Aberdaugleddau (2010)
Uwchgynllun Awdurdod y Porthladd ar gyfer Porthladd Aberdaugleddau.

Mae'r uwchgynllun yn egluro cynlluniau strategol y porthladd ei hun ar gyfer y tymor canolig i'r tymor hir, er mwyn helpu cyrff cynllunio rhanbarthol a lleol a darparwyr rhwydweithiau trafnidiaeth i baratoi ac adolygu strategaethau datblygu a rhoi gwybod i ddefnyddwyr a gweithwyr y porthladd a chymunedau lleol sut y gall y porthladd ddatblygu dros y blynyddoedd mewn ymateb i'r farchnad a chyfleoedd i gynyddu cynhyrchiant diwydiannol, gwneud y defnydd gorau o'r seilwaith sydd eisoes yn bodoli a sicrhau manteision amgylcheddol sy'n seiliedig ar rwydweithiau logisteg a chynhyrchu mwy effeithiol.

www.sir-benfro.gov.uk/y-cynllun-datblygu-lleol-ar-ol-adroddiad-yr-arolygydd

Papur Esboniadol

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a Phorthladdoedd
Cafodd y papur esboniadol ei baratoi i gynorthwyo darllenwyr yr FfDC drafft i ddeall y berthynas rhwng yr FfDC Drafft a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r dull a roddir ar waith i ymdrin â pholisïau porthladdoedd. Mae'n tynnu sylw at feysydd polisi allweddol sy'n gorgyffwrdd rhwng y cynlluniau a'r dystiolaeth sydd wedi llywio polisïau porthladdoedd o fewn y cynllun.

llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-phorthladdoedd-papur-esboniadol?_ga=2.104341508.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisïau hyn yng Ngrŵp Polisi 6.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Policy 13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol; a**

**Policy 14 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Telathrebu Symudol**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Mae PCC o blaid datblygu seilwaith telathrebu modern a chyflym lle y bo'i angen i ddiwallu anghenion economaidd a chymdeithasol, ond gan ddibynnu ar y dirwedd a'r amwynderau.

Mae PCC o blaid rhannu mastiau er mwyn darparu cyn lleied â phosibl o seilwaith newydd a lleihau'r effaith amgylcheddol. Mae'n annog awdurdodau cynllunio lleol i weithio gyda gweithredwyr telathrebu symudol i nodi darpariaeth newydd, ac i gynnwys polisïau cynlluniau datblygu er mwyn helpu i lywio datblygiadau. Mae angen

i'r system gynllunio ymateb yn gadarnhaol i dechnoleg delathrebu newydd a newidiadau mewn gofynion.

Mae PCC yn annog awdurdodau cynllunio i gefnogi cynigion datblygu ar gyfer seilwaith band eang. Dylai datblygiadau newydd gynnwys darparu seilwaith band eang o'r cychwyn.

Dylai awdurdodau cynllunio gydgysylltu â darparwyr seilwaith band eang er mwyn deall y gofynion ar gyfer ei gyflwyno yn y dyfodol.

Mae PCC yn cydnabod bod mynediad at fand eang cyflym iawn yn hanfodol at ddibenion busnes a dibenion cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

PCC adran 5.2.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.208650262.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)
TAN 19 Telathrebu (2002)

Mae'r cyngor hwn yn ystyried twf y diwydiant telathrebu a thechnoleg, y galw cymdeithasol ac economaidd newydd am gyfathrebu, a pholisïau amgylcheddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r cyngor yn diffinio terminoleg telathrebu, yn nodi'r materion y dylai'r cynllun datblygu fynd i'r afael â nhw ac yn disgrifio gweithdrefnau rheoli datblygiad ac ystyriaethau amgylcheddol wrth asesu ceisiadau am gymeradwyaeth ymlaen llaw a chaniatâd cynllunio.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-19-telathrebu

Tystiolaeth Allweddol

Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (Mawrth 2019)
Mae'n hyrwyddo twf economi gynhwysol, gan ledaenu cyfle a llesiant a chyfrannu at gynnal y Strategaeth Genedlaethol: Ffyniant i Bawb.

- Mae o blaid gwella'r cysylltedd a'r cwmpas symudol (gan gynnwys rhoi 5G ar waith) er budd yr economi leol, ond gan gydnabod bod angen diogelu ein tirwedd.
- Mae'n annog gwaith gyda gweithredwyr telathrebu symudol ac Ofcom i feddwl am atebion arloesol ar gyfer ardaloedd gwledig lle bo ein topograffi'n heriol iawn.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf

Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol (Hydref 2017)
Mae'r cynllun yn dangos sut y byddwn yn gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol ac Ofcom i wella'r cysylltiadau telathrebu er mwyn diwallu anghenion pobl a busnesau yng Nghymru.

- Mae'n cynnwys camau allweddol i bennu cwmpas unrhyw ymyrraeth gyhoeddus sydd ei hangen i lenwi'r bwlch mewn ardaloedd yng Nghymru lle ceir cysylltiad telathrebu gwael os o gwbl.
- Mae wedi arwain at waith ymchwil i nodi tir ledled Cymru lle y gellid sefydlu Ardaloedd Gweithredu Symudol.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-gweithredu-ffonau-symudol.pdf

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Digwyddiadau Ymgysylltu – (Ionawr / Chwefror 2017)
Trefnwyd y digwyddiadau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r FfDC, casglu safbwyntiau ar y materion dan sylw, tynnu sylw at y Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau, a rhoi cyfle i bobl ofyn cwestiynau.

Dylai'r FfDC gydnabod y canlynol:

- mae angen mynd i'r afael â chysylltiadau symudol a band eang gwael mewn ardaloedd gwledig
- a hwyluso seilwaith digidol cyflym a dibynadwy i gefnogi economi ddynamig
- gall technoleg band eang leihau'r angen i deithio (gan gael effeithiau cadarnhaol ar dagfeydd a llygredd); cynyddu cynhyrchiant; cefnogi trefniadau gweithio hyblyg; lleihau ynysigrwydd
- gall band eang wella mynediad at wasanaethau, adnoddau diwylliannol ac adloniant. Mae cymunedau heb gysylltiadau da yn llai deniadol i bobl fyw ynddynt
- mae twristiaid yn disgwyl gallu defnyddio rhwydweithiau symudol a band eang
- mae angen i'r system gynllunio fod yn ymatebol i dechnoleg gyfathrebu newydd, a'r manteision i bob rhan o Gymru.

llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-digwyddiadau-ymgysylltu-ionawr-chwefror-2017-cofnod-o-ddigwyddiadau.pdf

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisïau hyn yng Ngrŵp Polisi 7.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 15 – Y Goedwig Genedlaethol**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Mae PCC yn nodi fframwaith cadarn ar gyfer diogelu coed, coetiroedd a gwrychoedd. Dylid diogelu coetir hynafol, coetiroedd lled-naturiol a choed hynafol, aeddfed a threftadaeth unigol:

Asesu Manteision Cynaliadwy Datblygu (2.21-2.23); Dylunio (3.7-3.10. 3.14) Lleoedd Iachach (3.19-3.24); Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (3.30-3.33); Creu Lleoedd mewn Ardaloedd Gwledig (3.34-3.35); Y Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (3.54-3.55); Rheoli Ffurf Aneddiadau (3.60-3.74); Cyfleusterau Cymunedol (4.4); Mannau Hamdden (4.5) Twristiaeth (5.5); Yr Economi Wledig (5.6); Diogelu Nodweddion a Phriodoleddau Arbennig Lleoedd (5.14.35-5.14.41); Adfer ac Ôl-ofal (5.14.50-5.14-55); Seilwaith Gwyrdd (6.2); Tirwedd (6.3), Bioamrywiaeth a Rhwydweithiau Ecolegol (6.4,

6.4.24-6.4.26); Ardaloedd Arfordirol (6.5.3-8, 6.5.12-13, 6.5.17-20); Dŵr (6.6.5-6, 6.6.14-19); Ansawdd Aer a Seinwedd (6.7.8, 6.7.10, 6.7.12, 6.7.16-18, 6.7.25); Dadrisgio (6.9.3, 6.9.8-9).

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru?_ga=2.208650262.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)
TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio

TAN 6: Cynllunio ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy

TAN 13: Twristiaeth

TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored

TAN 15: Datblygu a pherygl llifogydd

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-5-cynllunio-chadwraeth-natur

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-6-cynllunio-ar-gyfer-cymunedau-gwledig-cynaliadwy

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-13-twristiaeth

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-15-datblygu-perygl-llifogydd

Tystiolaeth Allweddol

### Polisi Adnoddau Naturiol 2017

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Polisi Adnoddau Naturiol. Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i roi'r Polisi ar waith ac annog eraill i gymryd camau o'r fath.

Y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol a nodir yn y Polisi Adnoddau Naturiol yw:

- Dod o hyd i atebion seiliedig ar natur.
- Cynyddu ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon.
- Mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar leoedd.

O safbwynt coed a choetir, y pwyntiau mwyaf perthnasol ar gyfer y system gynllunio yw ei nodau i:

- annog cynlluniau coedwig da a rheolaeth gynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymeriad ac ansawdd y dirwedd, yn gwella gwerth bioamrywiaethol coedwigoedd, ac yn sicrhau manteision ehangach megis rheoli perygl llifogydd.
- cynyddu a gwella'r cysylltedd rhwng ein gwrychoedd – mae perthi'n agwedd bwysig ar gysylltedd yn y dirwedd a gallant chwarae eu rhan i reoli dŵr.
- rheoli coed a choetir sydd o werth amgylcheddol mawr, yn ofalus, gan gynnwys safleoedd coetir hynafol a choed hynafol, aeddfed a threftadaeth, sy'n adnodd na all dim gymryd ei le, sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ecosystem.

llyw.cymru/y-polisi-adnoddau-naturiol-cenedlaethol

### Cynllun Gweithredu Coetiroedd i Gymru

"*Coetiroedd i Gymru*" yw strategaeth 50 mlynedd Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed yng Nghymru. Cafodd ei chyhoeddi'n wreiddiol yn 2001 a'i diwygio ym mis Mawrth 2009. Mae'n pennu nodau ac amcanion polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer holl goetiroedd a choed Cymru, gan gynnwys eiddo cyhoeddus a phreifat mewn ardaloedd gwledig, ardaloedd o gwmpas trefi ac ardaloedd trefol.

Mae'r strategaeth yn cydnabod mai gweithgaredd hirdymor yw rheoli coetiroedd a choed ac y gall arwain at amrywiaeth o fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru, gan

gynnwys gwneud cyfraniad sylweddol at liniaru effaith y newid yn yr hinsawdd.

Bydd creu a rheoli coetiroedd yn bwysig er mwyn bodloni cyllidebau carbon, y targedau allyriadau interim a tharged allyriadau 2050.

Penderfynodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol ddiwygio'r targed hirdymor er mwyn cynnwys cynyddu'r gorchudd coed ynghyd â mabwysiadu targed byrdymor, interim ar gyfer creu 10,000 o hectarau o goetir erbyn 2020.

Bydd hyn yn gofyn am blannu 2,000 ha o goed y flwyddyn ar gyfartaledd.

Mae'r strategaeth yn cydnabod gallu a chapasiti coetiroedd a choed:-

- i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru
- i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt
- i sicrhau manteision i bobl, amgylchedd ac economi Cymru, heddiw ac yn y dyfodol.

Gallai'r FfDC fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn benodol, gall yr FfDC wneud cyfraniad effeithiol at y canlynol:

- Diogelu coetiroedd sydd eisoes yn bodoli a chynyddu gorchudd coetiroedd/creu coetiroedd newydd.
- Cyfrannu at gynyddu a diogelu'r gorchudd coed sydd eisoes mewn trefi a dinasoedd a chefnogi'r gwaith o reoli coed trefol mewn ffordd gynaliadwy.
- Gwella'r modd y caiff pren o Gymru ei reoli a'i gynhyrchu a chynyddu ei fanteision economaidd drwy annog pobl i ddefnyddio pren o Gymru, er enghraifft fel deunydd hanfodol ar gyfer gwaith adeiladu cynaliadwy sy'n ganolog i ddarparu tai newydd.
- Cyfrannu at "werth di-bren" coedwigoedd, coetiroedd a choed er budd pobl, cymunedau ac amgylchedd naturiol Cymru.

llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-cynllun-gweithredu?_ga=2.143009201.580004829.1600676113-620607912.1597653541

### Mapio cyfleoedd ar gyfer plannu coetir

Darparwyd y mapiau gan CNC a oedd yn nodi cyfleoedd posibl i greu coetir ledled Cymru.

Roedd y syniad o greu coedwig genedlaethol i Gymru yn rhan o faniffesto arweinyddiaeth Mark Drakeford. Diben hynny fyddai creu rhwydwaith o goedwigoedd ledled Cymru a fyddai'n gwneud y gorau o gyfleoedd amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a chyrraedd y targed o gynyddu gorchudd coed 2,000 o hectarau y flwyddyn o leiaf o 2020.

Byddai angen i'r rhwydwaith sicrhau'r manteision mwyaf er budd:

- Coed
- Hamdden
- Twristiaeth
- Masnach
- Addysg
- Cysylltedd gan gynnwys teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau trydan a seilwaith gwyrdd
- Bioamrywiaeth a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- Ynni adnewyddadwy a charbon isel
- Adfywio

Gellid gwneud hyn drwy frandio ardaloedd sydd eisoes yn bodoli, plannu mwy, datblygu seilwaith fel canolfannau ymwelwyr / hybiau canolog gyda chyfleusterau, mannau gwefru ceir trydan, llwybrau teithio llesol, cyfleusterau hamdden – canolfannau ymwelwyr, caffis ac ati.

Yr hyn sy'n berthnasol i'r FfDC a'r syniad o Goedwig Genedlaethol yw:

- Mae angen coetiroedd amrywiol, mawr a bach ar Gymru (gan gynnwys conwydd a rhywogaethau llydanddail).
- Mae angen integreiddio coetiroedd a defnyddiau tir eraill yn well.
- Mae angen cydnabod pwysigrwydd sylfaenol cynyddu nifer y coed mewn ardaloedd trefol.
- Mae angen gwella gallu coetir a gwrychoedd i ddarparu cysylltedd ecolegol a thirweddol.
- Mae coetiroedd a choed iach a chydnerth yn darparu amrywiaeth eang o fuddiannau i gymunedau, gan alluogi pobl i ddefnyddio a mwynhau coetiroedd, byw bywydau iachach a chymryd rhan mewn gweithgarwch economaidd sy'n gysylltiedig â mentrau coetir.
- Bydd coetiroedd yn cyfrannu fwyfwy at gefnogi ymdrechion Llywodraeth Cymru i wella cyfleoedd pobl a chymunedau i fwynhau'r awyr agored at ddibenion hamdden.

Ystyriwyd bod mapiau CNC yn cefnogi'r polisi yn yr FfDC ar y Goedwig Genedlaethol (gweler y dystiolaeth ar gyfer polisi 8). Yn benodol, Map C (cyfleoedd i sicrhau manteision lluosog drwy greu coetiroedd), Map A (rhwydweithiau ecolegol cydnerth a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth) a Map B (llecynnau cyfoethog o ran gwasanaethau ecosystem) ochr yn ochr â'r mapiau canlynol:

- Twristiaeth – ffyrdd Cymru
- Llwybr beicio cenedlaethol
- Ardaloedd ynni adnewyddadwy
- Mynegai amddifadedd lluosog
- Cysylltiadau rheilffyrdd
- Mannau Hamdden Coedwigoedd CNC
- Llwybrau Hamdden Coedwigoedd CNC:

Adroddiad yr Ymgynghoriad ar y Prif Faterion a'r Opsiynau
llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2019-06/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-crynodeb-o-ymatebion.pdf

Digwyddiadau Ymgysylltu
Roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod twristiaeth yn thema allweddol yn yr FfDC ac y dylai esbonio sut y gallai gweithredoedd yn yr amgylchedd naturiol effeithio ar y sector twristiaeth. Roedd rhanddeiliaid yn galw ar i'r FfDC gydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd ar raddfa strategol gan wneud y cysylltiadau o'r lefel leol i'r lefel genedlaethol. Hefyd, ymhlith y themâu penodol a godwyd roedd mynediad at yr amgylchedd naturiol/diogelu mawnogydd/plannu coed/cronfeydd dŵr/perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisi hwn yng Ngrŵp Polisi 5.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541

**Polisi 16 – Rhwydweithiau Gwres**

Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC

Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)

Dywed paragraff 5.4.18 y dylai awdurdodau cynllunio edrych yn ffafriol ar unrhyw gynigion i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel sydd wedi'u dylunio i wasanaethu clystyrau, fel systemau gwresogi ardal.

Mae adran 5.9 o PCC yn amlinellu ein polisïau ar hyrwyddo ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob math. Wrth wneud hynny, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau y gwneir y gorau o botensial llawn ardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel ac y caiff targedau ynni adnewyddadwy eu cyrraedd.

Hefyd, dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod polisïau cynlluniau datblygu yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ym mhob rhan o Gymru, cyfeirio datblygiadau i'r leoliadau cywir a nodi'n glir y meini prawf lleol a ddefnyddir i werthuso cynigion.

Dywed paragraff 5.9.6 a 5.9.7 y dylai awdurdodau cynllunio gynllunio mewn ffordd gadarnhaol ar gyfer defnyddio trydan a gwres a gynhyrchir yn lleol. Dylent ddatblygu polisïau a chynigion sy'n hwyluso lleoli datblygiadau mawr yn yr un lle er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio gwres lleol. Dylai cynlluniau datblygu gefnogi cyfleoedd sydd wedi'u nodi ar gyfer cynlluniau gwresogi ardal, cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol a chyd-leoli cynigion a dyraniadau tir newydd â datblygiadau sydd eisoes yn bodoli, cyflenwyr gwres a defnyddwyr gwres.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

Cyhoeddwyd (TAN) 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy yn 2005 ac mae'n rhoi cyngor technegol ar rwydweithiau gwres ac yn annog prosiectau gwresogi cymunedol sy'n defnyddio technolegau carbon isel y dylid eu cynnwys mewn cynlluniau datblygu a chanllawiau cynllunio ategol.

llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-8-ynni-adnewyddadwy?_ga=2.139004087.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Tystiolaeth Allweddol

The Future of Heating: Meeting the challenge (2013)

Datganiad Polisi Llywodraeth y DU ar Wresogi.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r her o ddatgarboneiddio'r galw presennol am wres yn y DU. Mae'n cydnabod y bydd rhwydweithiau gwresogi'n cyfrannu at leihau'r galw am systemau gwresogi sy'n defnyddio tanwydd ffosil.

Mae'n cydnabod bod cyfraniad awdurdodau lleol yn dyngedfennol er mwyn cynyddu'r defnydd o rwydweithiau gwresogi gan eu bod yn gallu creu amgylchedd cefnogol yn eu hardaloedd a chefnogi neu noddi prosiectau penodol. Nhw sy'n gyfrifol am gynllunio, adfywio trefol a thai a nhw sy'n berchen ar y ffyrdd y bydd angen gosod y rhwydweithiau oddi tanynt. Nhw hefyd yw perchenogion y llwythi

gwres mewn tai cymdeithasol ac adeiladau eraill y maent yn eu rheoli neu'n eu meddiannu.

Mae'n cydnabod hefyd mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i baratoi'r uwchgynllun ynni mewn ardaloedd sy'n addas ar gyfer rhwydweithiau gwresogi ac i asesu dichonoldeb prosiectau.

Tua 2% o'r galw am wres domestig, sector cyhoeddus a masnachol sy'n cael ei gyflenwi i adeiladau yn y DU drwy rwydweithiau gwresogi. Felly, mae gan yr FfDC ran i'w chwarae i nodi'r ardaloedd lle y gallai rhwydweithiau gwresogi fod yn ddichonadwy a gofyn am ragor o waith i asesu'r potensial.

www.gov.uk/government/publications/the-future-of-heating-meeting-the-challenge

### Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel (2019)

Mae'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hybu datgarboneiddio.

Mae Ffyniant i Bawb: Cymru carbon isel yn rhoi'r cefndir, y cyd-destun a'r dystiolaeth i Lywodraeth Cymru allu cyflwyno amrywiaeth o fesurau i sicrhau bod Cymru'n datgarboneiddio yn ddigon cyflym i fodloni ein hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol.

Un polisi penodol yn y cynllun yw y bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cefnogaeth i nodi systemau gwresogi ardal, eu datblygu a buddsoddi ynddynt. Mae'r FfDC yn rhan o'r polisi cadarnhaol hwn o nodi ardaloedd posibl ar gyfer rhwydweithiau o'r fath.

llyw.cymru/ffyniant-i-bawb-cymru-carbon-isel-cymru?_ga=2.209592470.580004829.1600676113-620607912.1597653541

### The national comprehensive assessment of the potential for combined heat and power and district heating and cooling in the UK (2016) (ar gael yn Saesneg yn unig)

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r potensial ar gyfer systemau gwresogi ac oeri ardal effeithiol yn y DU, hyd at 2030.

Yn ôl yr asesiad yn yr adroddiad o'r potensial technegol, gallai prosiectau unigol ar lefel adeilad, fel pympiau gwres, gwres solar a boeleri biomas, fodloni hyd at 85% o'r galw am wres yn y DU. Ar wahân i hynny, gallai cymaint â 60% gael ei fodloni drwy systemau gwresogi ardal effeithiol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys mapiau gwresogi ac oeri o'r DU, sy'n dangos lleoliad systemau gwres a phŵer cyfun a systemau gwresogi ardal, yn ogystal â ffynonellau posibl o wres adferadwy. Gellid defnyddio data'r asesiad hwn i nodi'n union ble yng Nghymru y ceir digon o alw am wres i wneud rhwydweithiau gwresogi ardal yn ddichonadwy. Gellir cynnwys yr ardaloedd hyn yn yr FfDC i fod yn gatalydd er mwyn i awdurdodau cynllunio a datblygwyr ymchwilio iddynt a'u hystyried ymhellach.

www.gov.uk/government/publications/the-national-comprehensive-assessment-of-the-potential-for-combined-heat-and-power-and-district-heating-and-cooling-in-the-uk (ar gael yn Saesneg yn unig)

### Data Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal (2019)

Y data a ddefnyddir i nodi Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal.

Rydym wedi defnyddio data a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU a'r data yn y National Comprehensive Assessment of Heating and Cooling (gweler uchod) i nodi faint o wres sydd ei angen ar y mwyafrif o adeiladau yng Nghymru.

O wneud hyn, gan ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol, rydym wedi nodi ardaloedd bach eu harwynebedd lle mae galw mawr am ynni gwres. Mae'r holl ardaloedd hyn yn ardaloedd â dwysedd gwres o fwy na 3 Megawatt fesul cilometr sgwâr. Rydym wedi crynhoi'r data hyn i nodi aneddiadau yng Nghymru sydd â'r potensial mwyaf i gynnal rhwydweithiau gwresogi ardal dichonadwy.

Mae'r aneddiadau hyn wedi'u nodi yn yr FfDC fel Ardaloedd Blaenoriaeth Gwresogi Ardal.

lle.gov.wales/catalogue/item/NDFHeatDemandMap/?lang=cy

Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)
Mae adroddiad yr ACI (gan gynnwys adroddiad amgylcheddol) yn nodi'r asesiad o bolisïau'r FfDC. Mae Atodiad F o adroddiad yr ACI yn nodi'r asesiad manwl o'r polisi hwn yng Ngrŵp Polisi 8.

Mae Tabl 5 yn adroddiad yr HRA yn nodi'r canlyniadau sgrinio ar gyfer y polisi hwn.

Adroddiad yr ACI (gan gynnwys Adroddiad Amgylcheddol) gan gynnwys Atodiad F:

llyw.cymru/dyfodol-cymru-arfarniad-cynaliadwyedd-integredig?_ga=2.101108869.580004829.1600676113-620607912.1597653541

Adroddiad yr HRA:

llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-asesiad-rheoliadau-cynefinoedd-0?_ga=2.172420391.580004829.1600676113-620607912.1597653541



**Polisi 17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig**

**Polisi 18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol**
Helpu i Gyflawni Canlyniadau'r FfDC
Cymru lle mae pobl yn byw...

1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach,
2. mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau,
3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy,
6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo,
9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd,
10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, gwydn a chysylltiedig,
11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC)
Mae'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy ym Mholisi Cynllunio Cymru (tudalen 20) yn nodi y dylai lle cynaliadwy gynhyrchu ei ynni adnewyddadwy ei hun, gwneud y defnydd gorau o adnoddau naturiol a bod â thirweddau unigryw ac arbennig.

Mae adran 5.9 o PCC yn amlinellu ein polisïau ar hyrwyddo ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio hwyluso datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob math. Wrth wneud hynny, dylai awdurdodau cynllunio geisio sicrhau y gwneir y gorau o botensial llawn ardal i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel ac y caiff targedau ynni adnewyddadwy eu cyrraedd.

Hefyd, dywed PCC y dylai awdurdodau cynllunio sicrhau bod polisïau cynlluniau datblygu gefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel ym mhob rhan o Gymru, cyfeirio datblygiadau i'r leoliadau cywir a nodi'n glir y meini prawf lleol a ddefnyddir i werthuso cynigion.

Mae paragraff 6.3.8 hefyd yn datgan mai'r un statws sydd i barciau cenedlaethol ac AHNEau yn nhermau harddwch eu tirwedd a'u golygfeydd, a rhaid diogelu'r ddau yn llwyr rhag datblygiadau amhriodol.

llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

### Nodiadau Cyngor Technegol (TAN)

